# heddwch

gwanwyn 2005
rhif 35
am ddim (neu gyfraniad)

cylchgrawn CND Cymru



# Ydych chi'n gyfrifol? *

**gyrrwr bws, cynghorydd, cyfreithiwr, gard diogelwch, arbenigwr, ffermwr, peintiwr, mecanydd ceir, dawnsiwr, myfyriwr, clerc banc, adeiladwr, tincer, gwyddonydd, nyrs, ASE, technegydd, gwyliwr y glannau, teiliwr, cyfranddalwr, AC, barbwr, athrawes, trydanydd, milwr, diddanwr, gweithiwr post, AS, plymar, bugail, offeiriad, morwr, heddgeidwad, gyrrwr lori, dylunydd, cogydd, gweithiwr dur, darlithydd, meddyg, weldiwr, diffoddwr tân, peiriannydd, offerwr, tafarnwr, garddwr, athro, gohebydd, peilot, bydwraig, Y.H., gweinidog, llongwr tanfor, gweinyddes, cerddor, dylunydd gwe, pensiynwr, troellwr, llawfeddyg, rhiant, gofalydd, llyfgellydd, trethdalwr, bardd, porthor ysbyty, casglwr sbwriel, etholwr...**

## *Mae democratiaeth yn golygu fod eich bys chi ar y botwm hefyd.

## heddwch

yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).

Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.

Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau

**Golygydd:**
Jill Stallard
(01550) 750 260
jill@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844

Os byddwch yn ddistaw, gall pobl gredu eich bod yn cytuno

cyfar

# Ydych chi'n gyfrifol? *

**Mae mwy na 30,000 o arfau niwclear yn y byd, bron bob un ohonynt mewn gwledydd 'democrataidd'. Mae hynny'n gwneud pob un ohonom yn gyfrifol am ddylunio, cynhyrchu, lleoli a defnyddio arfau niwclear . . . neu am gael gwared ohonynt.**

**Mae digon o arfau niwclear yn y byd i ddinistrio'r ddaear a phob copa walltog arni sawl gwaith drosodd. Gallai un bom ddinistrio dinas gyfan a'i chyffiniau. Gallai system Trident Prydain ar ei phen ei hun ddinistrio bywyd cyfandir cyfan a gwasgaru gronynnau radio-niwclear marwol i bedwar ban y byd.**

***Mae democratiaeth yn golygu fod eich bys chi ar y botwm hefyd.**

# Gŵyl Heddwch Cymru Gyfan

Yn bur wahanol i llynedd mi roedd dydd (Mawrth 19) yr wyl Heddwch yn Aberystwyth yn braf, ac wedi'r cynllunio a'r nosweithu hir o dorri siapau dwylo o gardfwrdd ar gyfer thema'r Wyl, 'Codwn ein dwylo dros heddwch', mi roedd

Aber yn barod i'r rali a'r wledd o ddarlithoedd a cherddoriaeth oedd i ddilyn. Llwyddiant ysgubol oedd y rali eleni, gyda'r drymwyr samba yn gosod yr awyrgylch a'u curiad ysbrydol drwy strydoedd Aberystwyth, a'r dwylo gwyn yn neidio ar donnau awyr Aberystwyth. Braf oedd gweld bod y gefnogaeth i'r rali yr un mor frwd a'r llynedd, a hwythau'n ddydd y 'Grand Slam' mawreddog o bopeth!

Mi roedd aelodau y Saith Heddychwr Treth yn hollol ysbrydoledig yn eu anerchiad i'r rali, gan bwysleisio y modd y medra pawb ymgyrchu yn erbyn defnydd y llywodraeth o'n trethu er mwyn creu arfau i ymladd rhyfeloedd, a hynny drwy wrthod talu trethu. Mae hyn yn dangos cryfder person, a'r brwdfrydedd i ddangos i'r rhai sy'n rheoli nad ydym yn protestio yn ofer, ond bod ein gweithredoedd yn creu gwahaniaeth.

Roedd hi'n fenyw cryf a oedd yn medru siarad mor ffeithiol a chall am driniaeth ofnadwy ei ur gan y Wladwrithaeth Prydeinig pan ymosododd yr heddlu arno un noson tra'n cysgu, gan bygwth i'w ddanfon i llysoedd yn yr Amerig. Stori i'n gwylltio oedd hwn fod ein hawliau dynol mor fregus, a'r ffaith y medrir y fath beth ddigwydd i unrhywun ohonom yn oes y /Big Brother/ Llafuraidd.




ffoto: Emily Freeman

Mi roedd y gweithdai, y cerddoriaeth fin nos yn y Cwps, a'r barddoniaeth difyr gan Patrick Jones a Mike Jenkins wedi creu naws o Wyl Heddwch lawn yn Aber eleni. Gobeithio y medrwn creu Gwyl Heddwch lwyddiannus eto blwyddyn nesaf ac i greu rhwydweithio rhwng grwpiau heddwch Cymru er mwyn ysbarduno mwy o bobl i ymgyrchu dros heddwch ac i godi eu dwylo dros heddwch.

**Bethan Jenkins Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth**

# Dydych chi DDIM yn ddi-rym

**Os ydych am ddylanwadu ar y llywodraeth yn San Steffan neu Gaerdydd, dyma nifer o awgrymiadau.**

## SIARADWCH A GWRANDEWCH

- â'ch ffrindiau a chydweithwyr
- â chlybiau a chymdeithasau lleol ynglwn â gweithredu di-drais a dewisiadau amgen i ryfel
- yn eich ysgol, coleg, man gwaith, addoldy, caffi neu dafarn
- â'ch undeb neu gorff proffesiynol, a chefnogwych drafodaethau cyhoeddus ynglwn â dulliau tymor-hir, di-drais o ddatrys problemau cyfredol, a mynd i'r afael â'r rhésymau gwaelodol sy'n meithrin anghyfiawnder a gwrthdaro. Gwnewch yn siur eich bod yn gwybod y ffeithiau

## SGRIFENNWCH


- lythyron at eich AS a'ch AC – mae'r rhain yn bwysig iawn
- at weinidogion y llywodraeth
- lythyron ac erthyglau ar gyfer eich papur newydd lleol
- i gefnogi'r rheini sydd o blaid mynd i'r afael ag achosion rhyfel a gwrthdaro
- at arweinwyr y byd a'r Cenhedloedd Unedig

## YMUNWCH

- â rhai sy'n meddwl run fath, ffurfiwch grwp heddwch a chyfiawnder lleol
- â'ch grup grwp heddwch a chyfiawnder lleol, os oes un yn bod
- ag unrhyw wrthdystiad lleol neu genedlaethol sy'n cefnogi'r materion sydd o bwys i chi
- CND Cymru a helpwch i ymgyrchu ledled Cymru

## HELPWCH

i drefnu digwyddiadau a chyfarfodydd heddwch a chyfiawnder




- i gasglu llofnodion ar ddeisebau rydych yn eu cefnogi

## FFONIWCH

- unrhyw raglen ffonio-i-mewn berthnasol

## YMWELWCH

- â chymorthfeydd lleol eich AS a'ch AC

## CYMERWCH RAN

mewn anufudd-dod sifil neu hyfforddwch ar gyfer gweithredu uniongyrchol di-drais a chymryd rhan. Gweler : www.j-n-v.org a www.tridentploughshares.org www.nvda-uk.net a www.seedsforchange.org.uk

## STICIWCH

boster i fyny – gwnewch eich un eich hun, neu edrychwch ar y gwefannau isod

## GWISGWCH

fathodyn neu sticeri – ar gael gan Fasnacha CND Cymru (01792) 830 330 neu fannau eraill, neu gwnewch sticeri ar labeli cyfeiriad

## COPÏWCH

y ddalen hon a'i rhoi i rywun arall

## COFIWCH

Does dim rhaid treulio llawer o amser oni allwch, na chymryd rhan mewn gweithred fawr onid ydych yn dymuno. Mae'r pethau bach personol yn cyfrif, felly ewch ati nawr!

**Heddwch a rhyddid yw'r nod bob amser, nid dim ond ar adegau o argyfwng**

## Cysylltiadau ar gyfer Protestio

**Eich Aelodau Cynulliad** (ffoniwch (020) 7490 1555 i gael eu henwau). Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
**Eich AS**: Tw'r Cyffredin, Westminster, Llundain SW1A0AA
**Tony Blair AS**, Prif Weinidog, 10 Downing Street, Llundain SW1A2AA (020)7270 3000
**Jack Straw AS**, Ysgrifennydd Tramor, FCO, King Charles Street, Llundain SW1A 2AH
**Geoff Hoon AS**, Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, MoD, Whitehall, Llundain SW1A 2HB (020) 7218 2111 ebost: sofs-registry1@mod.gsi.gov.uk
Neu gadewch neges i unrhyw weinidog gyda'r switsfwrdd: (020)7270 1500
**Yr Arlywydd George Bush**, The White House, 1600 Pennsylvania Ave., NW Washington DC20500 +1 202-456-6797

**Gwefannau defnyddiol: am wybodaeth, dulliau gweithredu, newyddion a barn**
**www.peacenews.info**
**www.voicesuk.org**
**www.occupationwatch.org**
**www.stopwar.org.uk**
**www.maw.org www.gn.apc.org**
**www.antiwar.com**
**www.womeninblack.org.uk**
**www.cndcymru.org**
**www.cymdeithasycymod.org.uk**
**gweler hefyd rhestr grwpiau Cymru yn y rhifyn yma o *heddwch***

***Diolch i Menywod mewn Du – Llundain – ysbrydoliaeth***

'tarfu ar yr heddwch'

# Ray - llygedyn o obaith

**Cwblhaodd Ray Davies, is-gadeirydd CND Cymru, gyfnod yng Ngharchar Caerdydd yn ddiweddar ar ôl cael ei ddedfrydu am weithredu uniongyrchol di-drais yn erbyn arfau niwclear a'r rhyfel yn Irac. Roedd gartref ym Medwas, Caerffili amser cinio pan alwodd dau heddwas a'i gymryd i'r ddalfa am fethu ateb gwws llys yn yr Alban yn ymwneud â'r rhan a chwaraeodd yn y Gwarchae Mawr ar ganolfan arfau niwclear Faslane, yr Alban ym mis Awst.**




Dywedwyd wrth Ray y byddai'n cael ei yrru i fyny i Glasgow y diwrnod hwnnw i ymddangos ger bron ynadon Helensborough ddydd Sadwrn.
Yn lle hynny, aethpwyd ag ef i orsaf heddlu'r Coed Duon a chafodd ei gadw yno o amser cinio ddydd Gwener tan 4.45 bnawn Sul ar ei ben ei hun mewn cell rhyw 9' x 12' o faint, gyda barrau ar y ffenestr a llwyfan concrid â matres tenau arno. Ni chafodd yr un pryd poeth nag unrhyw fwyd iawn. Dywedwyd wrth heddlu De Cymru dro ar ôl tro gan heddlu Strathclyde fod y cwmni diogelwch preifat, Reliant, sydd â'r cytundeb i redeg gwasanaethau carchar, wedi danfon cerbyd a'i fod ar ei ffordd. Aeth hyn ymlaen o ddydd Gwener tan ddydd Sul. Wrth i'r terfyn amser nesáu, pan fyddai'n rhaid cyhuddo Ray neu ei ollwng yn rhydd, cyraeddodd cerbyd o'r diwedd i'w gludo i fyny i Glasgow i ymddangos ger bron llys ddydd Llun.

Cafodd Ray ei gludo yno mewn fan Reliant gyda chyffion am ei ddwylo, ynghlo am wyth awr mewn cell 18" x 24" o faint heb ddim ond sedd blastig galed a ffenestr fechan iawn. Ni chafodd fwyd na chyfle i fynd i'r tw bach, er i'r ddau warchodwr preifat gymryd sawl egwyl eu hunain.

Cyrhaeddodd Glasgow am 10 o'r gloch y nos, a chafodd ei gloi yng nghelloedd Clydebank tan y bore. Am 6 o'r gloch y bore, cafodd ei alw i fynd i lys Helensborough, ond bu oedi ar y ffordd oherwydd pwysau achosion yn y llys. Yn lle hynny, aethpwyd ag ef i garchar preifat bychan i ddisgwyl am lys arbennig yn y prynhawn.

Ymddangosodd ger bron yr ynad cyflogedig. Pan ofynnwyd iddo pam nad oedd wedi ateb y wws, dywedodd ei fod ym Mhalesteina ar y pryd. Roedd gan yr ynad ddiddordeb mawr yn hanes ei waith dros heddwch yn y tiroedd dan feddiant. Yn wyneb yr hyn roedd wedi ei ddioddef dros y penwythnos, rhoddodd gerydd iddo a dweud wrtho ei fod yn rhydd i ymadael, gan ei fod eisoes wedi treulio pedwar diwrnod yn y ddalfa.

Dywedodd Ray wrth yr heddlu pan gafodd ei restio:
*"Mae arfau niwclear yn felltigedig ac yn anghyfreithlon. Maent yn bygwth bywydau pawb ar y blaned, a dyfodol ein plant. Mae cenhedlaeth newydd o'r arfau niwclear hyn yn awr yn cael eu datblygu o dan arweiniad Tony Blair a Geoff Hoon, a gallent gael eu defnyddio mewn gwrthdaro gydag Iran neu Syria yn y dyfodol. Mae Llys y Byd eisoes wedi dyfarnu fod defnyddio, neu fygwth defnyddio, arfau niwclear yn anghyfreithlon o dan y gyfraith ryngwladol. Pam ydyn ni'n eu cynhyrchu os nad oes bwriad eu defnyddio?"*

Er nad yw tarfu ar yr heddwch yn dramgwydd troseddol yng Nghymru, yn yr Alban mae'n drosedd y gellir carcharu o'i herwydd.
Mae Ray'n credu fod y pedwar diwrnod hwnnw mewn cell ar ei ben ei hun o dan y fath amodau yn waeth nag wythnos mewn carchar, ac mae'n bwriadu cwyno wrth Weinidog Cyfiawnder Senedd yr Alban.
Gan sôn am ei bedwar diwrnod yn y ddalfa, dywedodd:

*"Mae'r rhaid fod y gost i'r trethdalwr am y penwythnos yn tynnu am £10,000. Mae'r adnoddau a wastraffwyd ar fy erlyn i am brotestio'n heddychlon yn erbyn rhyfel anghyfiawn yn enghraifft arall eto o flaenoriaethau gwallgof ein llywodraeth. Mae miliynau'n cael eu gwario ar arfau yn Irac, Afghanistan, a mannau eraill; mae miloedd o fywydau'n dal i gael eu colli, gan ddefnyddio ein harian ni, arian y mae gymaint o'i angen ar gyfer iechyd, cludiant ac addysg ein gwlad. Mae bod ar wahân i Wendy, fy ngwraig, a'n dau blentyn yn dorcalonnus, ond rwyf yn gwneud hyn drostyn nhw a thros y ddynoliaeth ehangach."*

gweithredu yn Iwerddon a Llundain

# Dubsky v. Iwerddon

**Gwrandawyd ar adolygiad barnwrol o ran Iwerddon yn rhyfel yr UD yn Afghanistan gan Uchel Lys Iwerddon ym mis Chwefror. Dygwyd yr achos ddwy flynedd yn ôl gan Eoin Dubsky, a ymunodd gyda llawer o rai eraill i brotestio yn erbyn y ffaith fod awyrennau milwrol yr UD yn hedfan dros Iwerddon ac yn glanio yno i godi tanwydd.**

Mae a wnelo'r achos yn bennaf â'r gorchmynion a wnaed gan lywodraeth Iwerddon heb ganiatâd senedd Iwerddon (Dáil Eireann), i ganiatáu i awyrennau milwrol yr UD lanio yn Iwerddon ar eu ffordd i'r rhyfel yn Afghanistan. Amcangyfrifir fod rhyw 400,000 o filwyr Americanaidd wedi teithio drwy faes awyr Shannon yn unig ers mis Medi 2001. Mae faint o arfau a ffrwydron sydd wedi mynd drwy'r maes awyr yn anhysbys.

Cafodd Eoin ei restio am beintio sloganau heddwch ar awyren USAF C-130 ym maes awyr Shannon dridiau cyn cychwyn ar ei achos yn yr Uchel Lys ym mis Medi 2002. Yn y chwe mis wedi hynny, cynhaliwyd nifer o brotestiadau a gwylnosau, gwersyll heddwch a mwy o weithredoedd uniongyrchol yn y maes awyr.

Nid yw'r adolygiad barnwrol yn effeithio ar ei achos blaenorol a'i record droseddol (am niweidio'r awyren ryfel). Mae p'run ai a fydd yr achos yn effeithio ar weithgareddau hedfan a chodi tanwydd milwrol yr UD yn Iwerddon yn dibynnu ar yr hyn a wna'r mudiad heddwch. Nid yw'r llys wedi cyhoeddi ei ddyfarniad eto.




# Mary Kelly a Pit Stop Ploughshares

**Roedd y gweithredydd heddwch (a Trident Ploughshares) o Wyddeles, Mary Kelly, a gyfaddefodd ei bod wedi difrodi awyren ryfel Llynges yr UD ym maes awyr Shannon ym mis Ionawr 2003 yn y llys ym mis Rhagfyr 2004 i gael ei dedfrydu.**

Cawsai'r llys hi'n euog mewn gwrandawiad pan ddyfarnodd y barnwr nad oedd elfen o niwed wrth law (*imminent harm*) yn bresennol ar y foment y niweidiodd Mary yr awyren ryfel. Canmolodd y barnwr dedfrydu gymeriad da Mary a didwylledd ei daliadau, ond er mwyn atal 'anarchiaeth gymdeithasol', fe'i dedfrydodd i ddwy flynedd o garchar. Gohiriodd y ddedfryd ar yr amod ei bod yn cytuno i ymddwyn yn dda am bedair blynedd a chadw draw oddi wrth faes awyr Shannon.

Dywedodd y barnwr hefyd fod 'gweithred Mary yn un eithriadol na ddylai ddigwydd eto.' Ond wrth gwrs, roedd eisoes wedi digwydd eto – ychydig ddyddiau wedi i Mary gael ei restio yn 2003, pan achosodd y 'Pit Stop Ploughshares' hyd yn oed fwy o niwed i'r un awyren ryfel a oedd newydd gael ei thrwsio!

# Protestwyr yn meddiannu llysgenhadaeth Iwerddon yn Llundain

**Ar Fawrth yr ail, meddiannodd chwech o weithredwyr Prydeinig yn erbyn y rhyfel Lysgenhadaeth Iwerddon yn Llundain i brotestio yn erbyn y cyhuddiadau troseddol a ddygwyd yn erbyn gweithredwyr heddwch Pit Stop Ploughshares sydd yn awr yn wynebu hyd at ddeng mlynedd o garchar am ddiarfogi awyren Llynges yr UD yn gorfforol ym maes awyr Shannon yn 2003.**

Yn union wedi i'r llysgenhadaeth agor ei drysau, cadwynodd y protestwyr eu hunain ynghyd yn heddychlon y tu fewn i'r adeilad yn Grosvenor Place, tra crogodd rhai eraill faner yn dweud, "PITSTOP PLOUGHSHARES: NOT GUILTY" y tu allan. Cyflwynwyd llythyr o brotest i swyddogion y Llysgenhadaeth yn hawlio fod y rheini oedd ger bron llys am niweidio'r awyren Americanaidd wedi bod yn cefnogi'r gyfraith ryngwladol ac y dylid gollwng y cyhuddiadau. Roedd y llythyr hefyd yn cyhuddo llywodraeth Iwerddon o fod wedi tramgwyddo niwtraliaeth faith y wlad honno drwy ganiatáu i awyrennau'r UD lanio ym maes awyr Shannon.

Dywddod Joss Garman, o'r Dolau ym Mhowys, ar ran y gwrthdystwyr: *'Gweithredodd y Pitstop Ploughshares a niweidiodd yr awyren ym maes awyr Shannon i gynnal y Gyfraith Ryngwladol ac i atal Iwerddon rhag chwarae rhan mewn hil-laddiad. Ymhell o fod yn torri'r gyfraith, roeddynt yn ei chynnal, oherwydd mae'r rhyfel yn Irac yn amlwg yn anghyfreithlon. Dydy hi ddim yn iawn fod gweithredwyr heddwch yn wynebu blynyddoedd o garchar tra bod Bertie Aherne yn dal i fod â'i draed yn rhydd. Rydym am ategu Desmond Tutu a Martin Sheen a ddatganodd "Nid yw atal trosedd yn drosedd". Mewn llawer ffordd, gellir cymharu'r llain glanio ym maes awyr Shannon â'r rheilffordd i Auschwitz: wedi'r cwbl, mae 100,000 o bobl yn farw.'*

Mae'r Pitstop Ploughshares yn aelodau o Fudiad rhyngwladol y Gweithwyr Pabyddol - Karen Fallon, Deirdre Clancy, Ciaron O'Reilly, Damien Moran a Nuin Dunlop. Buont ger bron llys yn Nulyn ym mis Mawrth 2003, ar ddau gyhuddiad o niwed troseddol, un o □100 a'r llall o $2 filiwn, ac os ceir hwy yn euog, byddant yn wynebu hyd at ddeng mlynedd o garchar.

heddweithredu: **Gwerthfawrogir cefnogaeth o bob math bob amser. Gweler www.ploughsharesireland.org neu www.warontrial.com**
**Pit Stop Ploughshares Ciaron O'Reilly,134 Phibsborough Rd., Phibsborough,Dulyn 7, Iwerddon Symudol +353 (0)87 918 4552**
**Trident Ploughshares: Joss Garman 07815 004 578 www.tridentploughshares.org**
**I gysylltu ag Eoin Dubsky, ffoniwch: +33 6 86789118, +353 87 6941060**

arolygwyr arfau

# Peter Burt a'r CIA

**Ym mis Tachwedd, yn y cyfnod cyn ymosodiad byddin yr UD ar dref Falluja yn Irac, aeth dau ymgyrchydd heddwch i mewn i faes storio ffrwydron gwersyll Awyrlu'r UD yn 'RAF' Wellford, Berkshire, Lloegr fel protest yn erbyn yr ymosodiad arfaethedig.**

Dringodd Juliet McBride a Peter Burt (o Gaerdydd tan yn ddiweddar, ac yn adnabyddus i lawer o ymgyrchwyr heddwch Cymru) dros ffensys i fynd i mewn i'r gwersyll ger Newbury, i dreulio awr bron yn y storfa ffrwydron gan sgrifennu negeuson ar fomiau wedi eu storio yn yr awyr agored, mynd i mewn i warws lle'r oedd contractwyr yn gweithio – a thynnu lluniau o'u gorchest. Mae'r ddau ymgyrchydd yn aelodau o'i tîm arolygu arfau (cwbl answyddogol) lleol - Berkshire Citizen's Inspection Agency, neu'r CIA. Mae gan y CIA yma record dipyn gwell na'r CIA arall o ddarganfod arfau mewn llefydd nad oes ar neb mo'u heisiau. Ar un pwynt, cododd milwr UD ei law ar y ddau wrth iddo yrru heibio mewn lori, ond ni wnaeth unrhyw ymdrech i'w hatal.

Yn y pen draw, dyma'r ddau'n ildio i heddlu'r MoD – sy'n gyfrifol am 'ddiogelwch' ar y safle – a chawsant eu hebrwng o'r safle heb gael eu restio. Dywedodd Peter Burt wedyn – "Gadawodd ymosodiadau blaenorol ar Falluja gannoedd o sifiliaid diniwed yn farw a gwylltio aelodau o gymunedau Sunni a Shiah yn Irac, gan arwain at gynnydd dramatig mewn trais yn erbyn y goresgynwyr Americanaidd."

"Roeddem am ddanfon neges na fydd y byd yn anwybyddu hyn a gadael i George Bush gyflawni mwy o droseddau rhyfel yn Falluja. Nid dim ond Iraciaid sy'n wynebu lluoedd yr UD ond gweithredwyr fel ni a fydd yn gweithredu'n ddi-drais lle bynnag y medrwn i wrthwynebu'r ymosodiad."

**Diolch i 'nonviolent action' sydd yn awr yn rhan o Peace News.**

heddweithredu: **cysylltwch â Berkshire CIA ar Berkshire@hotmail.com**

# YMGYRCH!
## Casgliad CND Cymru

Mae CND Cymru newydd gyflwyno rhyw 36 llond blwch o archifau (llythyron, nodiadau, deunydd ymgyrchu, cyhoeddiadau, agendâu, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd) ynghyd â phosteri, tapiau fideo, taflenni a rhai baneri i Archif Wleidyddol Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae rhai dogfennau'n ymwneud ag ymgyrchoedd y 1960au ond mae trwch y casgliad yn dod o'r 1980au a'r 1990au. Os ydych am glirio'r atig, ac os oes gennych unrhyw ddeunydd yn ymwneud ag ymgyrchoedd gwrth-niwclear, heddwch a diarfogi'r gorffennol, hoffai Archif Wleidyddol Cymru glywed gennych. Mae angen i ni adrodd ein hanes ein hunain – os gadawn ni hynny i'r awdurdodau, dim ond eu fersiwn nhw a gaiff ei adrodd.

**Cysyllter ag Arwel Jones: (01970) 623873**

hawliau a chyfrifoldebau

# AS yn dweud wrth gyfarfod yn Wrecsam - 'fydd yr etholiad ddim yn atal y brosel uchel gyhuddo'

**Dywedodd Adam Price AS hyd yn oed pe bai Blair a Llafur Newydd yn ennill etholiad arall, na fyddai hynny'n atal y broses uchel gyhuddo.**

Mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd ar y cyd â Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam, ac a fynychwyd gan nifer fawr o bobl, dywedodd:

*"Un o nodweddion unigryw uchel gyhuddo yw nad yw'n syrthio pan ddaw senedd i ben, ond gall gario ymlaen yn yr un nesaf. Hyd yn oed pe bai Tony Blair yn cadw'i sedd yn Sedgefield a Llafur Newydd yn ffurfio'r llywodraeth nesaf, nid yw'n ddiogel rhag y broses uchel gyhyddo."*

Cytunai'r gynulleidfa'n llwyr gyda Mr. Price pan ddywedodd: ***"Fel llawer o bobl, brawychais wrth weld George Bush yn cael ei ethol am bedair blynedd arall. Ond mae'r posibilrwydd o bedair blynedd arall o Blair A Bush yn fy llenwi â braw."***




Mehdi El-Radhi, Adam Price AS, Janet Ryder AC

## Uchelgyhuddo Blair – yr ymgyrch

Mae grwp o ASau wedi datgan eu bwriad o uchel gyhuddo'r Prif Weinidog yn y Senedd o Uchel Droseddau a Chamymddygiad mewn perthynas â'r ymosodiad ar Irac yn 2003. Mae adroddiad a gomisiynwyd gan Adam Price, AS Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, o'r enw *A Case to Answer* yn cyflwyno tystiolaeth i'r ffaith fod y Prif Weinidog wedi camliwio'r asesiadau cudd-wybodaeth a gyflwynwyd iddo yn fwriadol, er mwyn twyllo'r cyhoedd a'r Senedd ynglwn â'r achos o blaid mynd i ryfel. Mae'n argymell y dylid dwyn achos i uchel gyhuddo'r Prif Weinidog oherwydd ei gamymddygiad ac mae'n honni fod gweithredoedd y Prif Weinidog wedi dinistrio enw da'r llywodraeth Brydeinig am onestrwydd ym mhedwar ban y byd.; wedi niweidio a bwrw amheuaeth ar y gwasanaethau cudd; wedi tanseilio'r Cyfansoddiad drwy wanhau llywodraeth gabinét, a gwneud cyff gwawd o'r Senedd fel cynrychiolydd y bobl.

Mae'r Aelodau Seneddol sy'n cefnogi'r ymgyrch hon yn credu ei bod yn ddyletswydd arnynt i wneud y cwbl a fedrant i ddal y Prif Weinidog hwn yn gyfrifol er mwyn adfer ffydd y bobl yn y broses ddemocrataidd.

Ym mis Rhagfyr 2004, enillodd Adam Price ddwy wobr o fri gan BBC Cymru ac mae ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Gwleidyddol 2005 Channel 4 yn y categori "Gwleidydd Ymgyrchol y Flwyddyn". **Gweler www.impeachBlair.org am y manylion llawn ynglwn â'r ymgyrch.**

bro emlyn

# Adeiladu cyfiawnder

Cynhaliwyd penwythnos gyda siaradwyr gwadd, gweithgareddau, gweithdai, ffilmiau, cerddoriaeth ac arddangosiadau'n dathlu ymdrechion y ddynolryw i greu byd tecach a thanlinellu oferedd ceisio datrys problemau drwy rym arfau yn Neuadd y Ddraig Goch, Drefach Felindre ar ddechrau mis Mawrth.

Roedd y ddau ddiwrnod o weithgareddau o dan faner 'Gwrthwynebwch Fraw – Adeiladwch Gyfiawnder' yn rhan o fis o weithgareddau tebyg ledled gwledydd Prydain, sy'n cynnwys rali yn Llundain a Gwyl Heddwch a Chyfiawnder y 19eg o Fawrth yn Aberystwyth.

Dewisodd grwp Heddwch a Chyfiawnder Bro Emlyn thema 'Adeiladu Cyfiawnder' ar gyfer y penwythnos, gan archwilio enghreifftiau positif ac astudiaethau achos o bedwar ban, fel Mahatma Ghandi yn India a'r mudiad Masnach Deg. Trafodwyd materion agosach i gartref fel hawliau pensiynwyr a phobl ifanc hefyd, ynghyd â rhai safbwyntiau personol ar heddwch a chyfiawnder.

**Rhoddodd Milan Rai, yr awdur rhyngwladol poblogaidd a'r gweithredydd heddwch adnabyddus, yr araith gyweirnod ar 'Gwrthwynebwch Fraw – Adeiladwch Gyfiawnder' yn ystod y prynhawn.**

Trefnodd Maggie Nichols a Pamela Gaunt theatr stryd a gweithdai perfformio creadigol, gweithdy ar hawliau sifil yn canolbwyntio ar y ddeddfwriaeth 'gwrth-frawychiaeth' newydd a'r effeithiau ar hawliau dynol. Cyd-redwyd gweithdy ymarferol ar weithredu uniongyrchol di-drais gan Delyn Harris o 'Cynefin y Werin' a'r ymgyrchydd heddwch o Sir Benfro, Dave Rolstone. Daeth y dydd i ben gyda dawnsfeydd heddwch o bedwar ban y byd, dan arweiniad Sandra Sunfire. Diweddglo'r digwyddiad ar y nos Sul oedd dangos y ffilmiau *'Rana's Wedding'* o Balesteina a *'The Bolivarian Revolution - Enter the Oil Workers'* o Venezuela.

heddweithredu: **Cred grwp Heddwch a Chyfiawnder Bro Emlyn: "Er mwyn i'r ddynoliaeth fod â dyfodol, rhaid i ni ddysgu oddi wrth hanes, a'i holl gyflafan a'i niwed.**
**Rydym yn gweithio o blaid teulu un-byd o amrywiaeth, sy'n coleddu heddwch a gobaith, rhyddid a chyfiawnder, cydraddoldeb a thegwch, gwirionedd, cyfeillgarwch a chariad. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i ni fod yn barod i wrando, deall, bod yn oddefgar, derbyn a maddau. I hybu'r achos byddwn yn trefnu gweithgareddau priodol sydd yn hysbysu, yn addysgu ac yn cyffroi.'**
**Os ydych am gymryd rhan, neu am fwy o wybodaeth, cysyllter â:**
**Celia Lang (01559) 370 991**
**lang@merlinslair.plus.com**
**www.bepj.org.uk**

lleianod yn y carchar

# Chwiorydd tangnefedd

**Ar y 25ain Gorffennaf 2003, dedfrydwyd y Chwiorydd Jackie Hudson, Carol Gilbert ac Ardeth Platte yn Llys Ffederal Denver am eu gweithred symbolaidd o ddiarfogi silo taflegrau N-8 yng ngogledd-ddwyrain Colorado. Fe arllwyson nhw eu gwaed eu hunain (a gariwyd yno mewn poteli babanod plastig) ar glawr y silo taflegrau ar ffurf chwe chroes. Nid cyd-ddigwyddiad mo'r ffaith mai dyddiad y weithred oedd blwyddyn namyn diwrnod i lansio ymgyrch fomio America ar Afghanistan. Mae'r taflegrau niwclear hyn yn arfau taro'n-gyntaf a all daro dinas 8,000 o filltiroedd i ffwrdd mewn 30 munud gan chwalu'r holl ddinas a'i chyffiniau'n chwilfriw.**

Wrth gyflawni'u gweithred o "ddiarfogi symbolaidd" ac wrth gael eu restio gan filwyr arfog a'u cludo i'r carchar, llafarganent yn ddi-baid, "O Dduw, dysg i ni fod yn dangnefeddwyr mewn byd gelyniaethus." Doedd dim byd symbolaidd ynglwn ag ymateb y fyddin. Cafwyd y tair yn euog o 'sabotage' a chawsant ddedfryd faith o garchar. Cafodd Jackie 31 mis, Carol 33 mis, ac Ardeth 41 mis am eu gweithred ddi-drais i brotestio yn erbyn arfau niwclear.

Mae pob un o'r lleianod yn ymdopi ar ei phen ei hun, ond does yr un o'r tair yn ei chael hi'n hawdd. Mae carchardai'n debyg iawn i wersyll milwrol ar lawer agwedd, ac mae'n well ganddynt gartrefu troseddwyr treisgar na phrotestwyr di-drais – yn enwedig rhai sy'n siarad yn blaen ac yn beirniadu'r swyddogion am eu trais. Dywedwyd wrth Carol fod ganddi broblem agwedd; cafodd holl restr ymwelwyr Ardeth ei chondemnio gan ei 'chynghorydd' cynddeiriog fel rhestr o ddrwgweithredwyr na fynnai eu gweld yn ei stafell ymweld. Mae Jackie wedi gorfod ei gwneud hi'n glir nad yw hi'n bwriadu nac yn gallu cerdded sawl milltir y dydd at y gwaith a ddynodwyd yn wreiddiol. Po fwyaf o safiadau y byddant yn eu gwneud, a pho fwyaf cariadurs y gwnânt hynny, mwyaf oll y maent yn cynddeiriogi'r awdurdodau. Tra byddant yn y carchar, mae eu chwiorydd crefyddol yn eu siarsio i genhadu.

Mae Carol a Jackie newydd ddysgu ei bod yn bosib yn byddant, pan gânt eu rhyddhau ym mis Mawrth, yn torri eu hamodau profiannaeth drwy fynd adref, gan fod y rheolau ffederal yn dweud fod yn rhaid treulio'r cyfnod prawf yn y dalaith lle'u cafwyd yn euog. Yn anarferol, cafodd cais am drosglwyddo ei wrthod. Mae Jackie'n bwriadu mynd adre p'run bynnag. Mae'r menywod yma wedi denu cefnogaeth anferth o bedwar ban y byd.

Dywedodd Ardeth Platt, wrth siarad o'r carchar ynglwn â'i gweithred, eu bod wedi gweithredu o'r un ymdeimlad o ddyletswydd a fyddai wedi cyfiawnhau unrhyw weithred anghyhyfreithlon gan ddinasyddion yn yr Almaen Natsïaidd yn erbyn Adolf Hitler a'i gefnogwyr. *"Rydym yn sôn am fygythiad i fywyd sydd yn hil-laddiad, yn holl-laddiad. Yr arfau niwclear yma – maen nhw fel gwn wrth bennau pobl Duw ledled y byd. Fedrwch chi ddim aros nes i arfau niwclear gael eu defnyddio. Rhaid atal y drosedd o flaen llaw."*

heddweithredu: **Byddai'r lleianod wrth eu boddau i dderbyn gair. Os hoffech sgrifennu atyn nhw, dyma eu cyfeiriadau ar hyn o bryd:**

**Ardeth Platte #10857-039**
**Danbury FPC, Route 37**
**Danbury, CT 06811**



**Carol Gilbert #10856-039**
**FPC Alderson-R1, Box A**
**Alderson, VW 24910**

**Jackie Hudson #08808-039**
**FPC Victorville, Box 5100**
**Adelanto, CA 92301**
**Ar ôl mis Mawrth:**
**d/o The Nuclear Resister, PO Box 43383, Tucson AZ 85733 UDA**

**Gwybodaeth bellach oddi wrth Jonah House, 1301, Moreland Avenue, Baltimore, MD 21216 UDA +1 410-233-6238**

# Effeithiau Arfau Niwclear

**Mae'r rhan fwyaf o'r hyn a wyddom am effeithiau arfau niwclear ar fodau dynol yn dod o'r ddau fom atomig a ollyngwyd ar ddinasoedd Hiroshima and Nagasaki yn Japan ym 1945. Mae llawer o wybodaeth ar gael hefyd ar sail profion niwclear yn yr atmosffer a damweiniau niwclear. Er bod llawer o wahanol fathau o arfau niwclear o wahanol nerth ffrwydrol, yr un fyddai'r effeithiau – ond eu bod yn amrywio o ran graddfa.**

## Arbrofion yr UD ar bobl Japan

Ar y 6ed o Awst 1945, brin dair wythnos wedi prawf niwclear cyntaf y byd, gan yr Unol Daleithau yn anialwch New Mexico, defnyddiwyd bom niwclear yn erbyn gelyn am y tro cyntaf. Ffrwydrodd yr UD ddyfais wraniwm o'r enw 'Little Boy' ryw 2,000 o droedfeddi uwchlaw dinas Hiroshima, gan ladd rhyw 140,000 o bobl. Ar y 9fed o Awst ffrwydrwyd ail fom niwclear, dyfais blwtoniwm y tro yma, o'r enw 'Fat Man', tua'r un uchder uwchlaw dinas Nagasaki, gan ladd rhyw 74,000. Roedd yr Ail Ryfel Byd ar ben, a'r oes niwclear wedi dechrau.

Maint bom Hiroshima oedd 15 ciloton (cyfwerth â 15,000 tunnell o TNT). Roedd bom Nagasaki'n rhyw 21 ciloton. Mae un ergyd niwclear ar daflegryn Trident yn 100 ciloton. Mae gan Brydain 192 o'r ergydion niwclear hyn.

## Felly beth sy'n digwydd pan fydd arf niwclear yn ffrwydro?

Mae'n bwysig cofio nad dim ond bomiau mawr yw arfau niwclear. Dydyn nhw ddim o'r un cyfansoddiad â bomiau brawychwyr neu'r math o saethu trwm gan ynnau mawr a welir mor aml ar y newyddion. Mae'r effaith ar y corff dynol yn erchyll, ond mae'n bwysig i bobl gael gwybod beth sy'n digwydd. Mae tymheredd ffrwydrad niwclear yn sawl miliwn gradd centigrad. Mae'r ffrwydrad yn creu pelen dân wynias ac yn gollwng gwres deifiol ac ymbelydredd mewn gwyntoedd o ryw 1000 milltir yr awr. Mae hyn hefyd yn creu gwasgedd mawr ar yr aer o gwmpas. Mae'r cwmwl madarch yn cael ei greu wrth i'r chwa gref ar i fyny sugno rwbel o'r ddaear i fyny i'r awyr. Gall rhan uchaf y cwmwl fod yn sawl cilomedr o led.

## Dim ond cysgodion ac olion traed

Yn Hiroshima, o fewn radiws o hanner milltir, y cwbl oedd yn weddill o bobl a ddaliwyd allan yn yr awyr agored oedd cysgodion wedi eu llosgi yn y garreg. Mae hyn beth pur anodd ei ddychmygu. Dim ar ôl ohonoch ond cysgod ar lawr. Pe baech chi mewn adeilad neu wedi eich cysgodi mewn rhyw fodd arall, byddech yn cael eich lladd yn anuniongyrchol gan y ffrwydrad ac effeithiau'r gwres wrth i'r adeilad ddisgyn ac wrth i bopeth llosgadwy fynd yn wenfflam. O dan yr amodau eithriadol hyn, bydd y corff dynol yn toddi. Pelenni'r llygaid, yr wyneb, organau mewnol, mae'r cwbl yn toddi. Fodd bynnag, gellid dadlau mai'r rhai sy'n marw ar amrantiad yw'r rhai ffodus. Byddai pobl a oedd y tu allan i gylch mewnol y gyflafan yn dioddef llosgiadau marwol, byddent wedi eu dallu, yn gwaedu oherwydd teilchion gwydr yn eu cnawd, a byddent wedi dioddef anafiadau mewnol ofnadwy. Byddai hyn yn oed y rheini ag anafiadau nad oedd yn farwol o anghenraid yn debyg o farw pr'un bynnag oherwydd byddai'r cwbl bron o'r gwasanaethau achub a meddygol wedi cael eu dinistrio a'u gweithwyr wedi eu lladd. Ychydig iawn o driniaeth fyddai'r rhan fwyaf o'r rhai a anafwyd yn ei dderbyn. Byddai'r gyfradd farwolaeth ymhlith rhai ag anafiadau difrifol yn tynnu am 100%. Y gorau y gellid gobeithio amdano fyddai marw mewn cyn lleied o boen â phosib. Byddai'r effeithiau seicolegol yn barhaus ac yn arswydus.



*Nagasaki Awst 1945*



*Nagasaki Awst 1945*

## Llwch ymbelydrol

Fel y buasech yn disgwyl, gorau po bellaf yn bydd pobl oddi wrth y ffrwydrad o ran eu gobaith o oroesi. Ond byddai'r rhai a oedd yn dal yn fyw yn fuan yn dechrau dioddef effeithiau ymbelydredd. Mae effeithiau hynny'n amrywio. Mae cael eich ymbelydru â lefelau uchel o ymbelydredd yn achosi gwaedu o'r geg a chig y dannedd, briwiau madreddog, colli gwallt, gwaedu mewnol a dolur rhydd gwaedlyd, chwydu, twymyn, deliriwm a choma terfynol. Nid oes triniaeth effeithiol yn bod, a byddech yn marw o fewn diwrnodau.

Er bod y gobaith o oroesi'n hwy yn well gyda lefelau is o ymbelydredd, mae'r gyfradd farwolaeth yn dal yn uchel iawn. Mae'r effeithiau tymor-hir yn cynnwys ffetysau cynnar eu datblygiad yn cael eu geni â namau ac anableddau, niwed i'r system imiwnedd a chreithiau mawr. Hyd yn oed pe baech yn goroesi yn y tymor byr, mae posibilrwydd difrifol y byddech yn datblygu canser. Mae perygl hefyd y bydd eich plant yn debycach o ddioddef namau geni neu lewcemia a mathau eraill o ganser, er nad yw hyn wedi cael ei nodi ymhlith plant goroeswyr Hiroshima a Nagasaki.

## Dim ffiniau

Mae faint o lwch ymbelydrol a ollyngir yn dibynnu ar ba fath o ffrwydrad niwclear sy'n digwydd. Er enghraifft, yn Hiroshima, ffrwydrodd y bom yn yr awyr uwchlaw'r ddinas. Mae ffrwydrad awyr yn cynyddu effaith y gwres a'r ffrwydrad. Mae ffrwydro bom ar wyneb y ddaear yn achosi i lawer mwy o rwbel ymbelydrol gael ei sugno i fyny i'r atmosffer, ac mae maint yr ardal yr effeithir arni yn dibynnu ar gyflymdra a chyfeiriad y gwynt. Bydd y gronynnau trymaf o ddeunydd ymbelydrol yn cwympo yn y cyffiniau agos, ond bydd gronynnau llai yn cael eu chwythu gan y gwynt yn llawer pellach cyn syrthio. Gall gronynnau bach iawn gael ei chwythu am bellter maith cyn iddyn nhw gyfuno ag anwedd dur a chwympo fel glaw ymbelydrol. Gwelwyd hyn yn glir ar ôl y ffrwydrad yng ngorsaf niwclear Chernobyl, Ukrain ym 1986. Er bod yr ymbelydredd o orsaf niwclear yn wahanol i'r hyn as ollyngir gan fom, syrthiodd glaw ymbelydrol o Chernobyl ar draws rhannau helaeth o ogledd Ewrop, gan gyrraedd cyn belled â gogledd Cymru, yr Alban a Cumbria. Mae gogledd Cymru dros fil o filltiroedd o Chernobyl.

**Rhaglen Ymwybyddiaeth o Arfau Dinist Torfol**
www.comeclean.org.uk

# Gweithredwch nawr i atal ymlediad arfau niwclear!

Cynhelir Cynhadledd Adolygu bum-mlynyddol y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY) ym mis Mai eleni yn Efrog Newydd. Y CAY yw'r cytundeb diarfogi ehangaf ei gefnogaeth a fu erioed, gyda 188 o wledydd wedi ei arwyddo. Mae'n hanfodol bwysig i'r Cytundeb fynd i'r afael â phroblem datblygiad arfau niwclear newydd gan wledydd sydd eisoes yn meddu ar arfau niwclear (ymlediad fertigol) yn ogystal ag ymlediad arfau i niwclear i wledydd nad ydynt yn eu meddu eto (ymlediad llorweddol). Mae Pwyllgorau Paratoadol wedi bod yn cyfarfod ers pedair blynedd i bennu agenda ar gyfer y Gynhadledd Adolygu ond mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi methu cytuno oherwydd fod UDA yn mynnu nad oes angen trafod ymlediad fertigol. Mae perygl gwirioneddol y gallai'r Gynhadledd Adolygu arwain at gwymp y CAY, a fyddai'n arwain at ras arfau niwclear ddilywodraeth. Mae adroddiadau eisoes yn awgrymu y bydd UDA yn ceisio annilysio Dogfen Derfynol Cynhadledd Adolygu 2000 lle ailategodd y pum gwlad sydd wedi datgan fod ganddynt arfau niwclear (China, Ffrainc, Rwsia, Prydain ac UDA) eu hymrwymiad i ddiarfogi niwclear.

heddweithredu:

Mae'n bwysig i ni geisio sicrhau fod y Gynhadledd Adolygu yn llwyddiant o safbwynt diarfogi niwclear ac atal ymlediad. Nid yw'r naill yn bosibl heb y llall.

* Da chi, sgrifennwch at eich AS gyda'ch neges eich hun ynglwn â diarfogi niwclear a gofynnwch iddo/iddi ddanfon neges at Dr. John Freeman, cynrychiolydd Prydain yng Nghynhadledd Adolygu'r CAY i bwysleisio mor bwysig yw hi i lywodraeth Prydain anrhydeddu ei hoblygiadau i ddiarfogi o dan ddogfen derfynol Cynhadledd 2000, a dymuno canlyniad da i'r gynhadledd a ddylai gynnwys **pob** math o ymlediad niwclear.


* Anogwch eich Maer lleol a/neu arweinydd dinesig i ymuno ag ymgyrch y 'Meiri dros Heddwch' sy'n ceisio dangos i'r gwledydd a fydd yn mynychu'r gynhadledd ym mis Mai faint o bryder rhyngwladol sydd ynglwn ag ymlediad niwclear. Mwy o wybodaeth oddi wrth: UK Mayors for Peace, Stewart Kemp, Room 6005, Town Hall, Manceinion M60 3NY (0161) 234 3244 s.kemp@notes.manchester.gov.uk neu Owen Hardwicke: (01978) 312 375

* Cefnogwch ymgyrch ***Block the Builders*** yn Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston, gweithredu uniongyrchol di-drais i geisio atal y gwaith o adeiladu cyfleusterau newydd anferth yn y ffatri arfau niwclear Brydeinig yn Aldermaston, Berkshire. Cysyllter â: 07969 739 812 neu btb@aldermaston.net

* Sgrifennwch at eich papur lleol, ffoniwch raglenni radio, manteisiwch ar bob cyfle i sôn am y Gynhadledd Adolygu a'i phwysigrwydd i ddyfodol y byd.

* Yn y cyfnod sy'n arwain ar Gynhadledd Adolygu'r CAY, gall pawb sydd am i'r gwledydd arfau niwclear gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a dileu'r arfau ofnadwy hyn am byth arwyddo 'Datganiad'. Cyflwynir y rhain i bencadlys y CU yn Efrog Newydd yn ystod y Gynhadledd ac maent yn ffordd arall eto o sicrhau fod Llais y Bobl yn cael ei glywed yn y digwyddiad 'aruchel' hwn.
Cychwynnwyd y datganiadau hyn gan Broject Llys y Byd sy'n geisio manteisio i'r eithaf ar Farn 1996 y Llys Cyfiawnder Rhygnwladol fod bygwth defnyddio neu ddefnyddio arfau niwclear yn anghyfreithlon o dan Gyfraith Ryngwladol.
Nid deisebau mo'r Datganiadau, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ond ymrwymiadau personol, wedi eu harwyddo gan unigolion, a'r bwriad o gyfrannu tuag at ddatblygiad y gyfraith ryngwladol. Os nad ydych wedi arwyddo Datganiad eto, gallwch wneud hynny ar y we drwy fynd i Dudalen Hafan http://www.abolition2000europe.org/ lle gallwch ddarllen mwy ynglwn â'r Datganiad a sut i arwyddo un. Os nad ydych ar-lein, cysylltwch â George Farebrother, Project Llys y Byd: (01323)844 269

Ym mis Mawrth, ymwelodd Bruce Kent â Chyngor Torfaen lle arwyddodd y Maer Ddatganiad y Meiri dros Heddwch, i gefnogi'r camau cyntaf tuag at ddileu arfau niwclear.
***Ffoto:BillHart***



# A ninnau wedi meddwl ei bod hi'n ddiogel nawr

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o bobl wedi bod yn hyrwyddo pwer niwclear fel 'yr ateb' i gynhesu byd-eang. Ac yn awr, mae sibrydion fod y Blaid Lafur yn ystyried lansio Papur Gwyn newydd ar bolisi ynni ar ôl yr Etholiad Cyffredinol wedi cymell ymgyrchwyr yng Nghymru i wrthwynebu'r 'seiniau cefndir' hyn. Lansiwyd ymgyrch newydd yn ystod 23ain mlwyddiant y Gymru Ddi-niwclear mewn cynhadledd 'Dyfodol Di-niwclear' yn Aberystwyth ar 19eg Chwefror – y penwythnos cyntaf wedi i Brotocol Kyoto ddod i rym.**

Roedd y siaradwyr yn y gynhadledd a drefnwyd ar y cyd gan CND Cymru, Cynghrair Wrth-niwclear Cymru (CWNC) a Pobl Atal Wylfa B (PAWB) yn cynnwys Dr. Chris Busby o'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-Isel, Hugh Richards o CWNC, Rod Stallard, Is-gadeirydd CND Cymru, Neil Crumpton o Cyfeillion y Ddaear Cymru, a Dylan Morgan o PAWB. Cadeiriwyd y digwyddiad gan Deilwen Evans o CADNO (Trawsfynydd). Roedd y negeseuon o gefnogaeth yn cynnwys rhai gan y Blaid Werdd, yr AS Llafur Paul Flynn, a Jill Evans, ASE Plaid Cymru, Cadeirydd CND Cymru a alwodd am wrthod pwer niwclear yn llwyr:

***"Nid drwy ynni niwclear y mae atal cynhesu byd-eang. Mae'n beryglus ac yn ddrud, mae'n fygythiad i bob peth byw, mae'n anghynaliadwy yn amgylcheddol, ac mae'n gysylltiedig â chynhyrchu arfau niwclear. Mae technoleg niwclear eisoes wedi creu etifeddiaeth farwol ar gyfer cenedlaethau i ddod, a rhaid ei hatal ar unwaith."***

### Perygl ymbelydredd yng ngogledd Cymru

Datgelodd Chris Busby y modd yr aed ati'n fwriadol i gelu tystiolaeth fod peryglon ymbelydredd wedi cael eu tan-amcangyfrif yn aruthrol. Mae cyfraddau canser a lewcemia mewn plant sy'n byw yng nghyffiniau glannau gogledd Cymru, sydd wedi eu llygru gan ymbelydredd, yn fwy nag 20 gwaith yn uwch na chyfartaledd y DU. Siaradodd hefyd ynglwn ag etifeddiaeth erchyll damwain niwclear Chernobyl ym 1986, yn enwedig yr effeithiau ar blant yn Belarus, Ukrain a gorllewin Rwsia.

### Ynni adnewyddadwy ac arbed ynni – nid ynni niwclear

Soniodd Neil Crumpton am bwysigrwydd datblygu a hyrwyddo dulliau amgen di-niwclear a di-danwydd ffosil (adnewyddadwy) o gynhyrchu trydan. Y bwriad cyfredol yw cymryd lle ynni niwclear â thrydan a gynhyrchir drwy ddulliau adnewyddadwy, gyda'r bwriad o weld 20% o'r ynni a ddefnyddir gan Brydain yn ynni 'gwyrdd'.

Mae adroddiad diweddar gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn amcangyfrif y byddai'n rhaid i filiau trydan gynyddu o ryw 5% i gyrraedd y nod gyntaf o gynhyrchu 10% o ynni Prydain o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010. Byddai rhai'n dehongli hyn fel codi bwganod. Does dim digon o ystyriaeth o ffyrdd o gynhyrchu trydan o'r tonnau, y




llanw a'r haul, a systemau gwres a phwer cyfunedig. Roedd arbed ynni yn bwysig ar gyfer y dyfodol, ond pwysleisiwyd y gallai hyrwyddo toriadau ynni ddychryn y cyhoedd i dderbyn yr opsiwn niwclear, a gallai ofn toriadau trydan weithredu fel propaganda o blaid ynni niwclear yn y dwylo anghywir.

### Dolennau yn yr un gadwyn

Amlinellodd Rod Stallard y cysylltiadau na sonir amdanynt yn aml iawn rhwng puer niwclear ac arfau niwclear. Eglurodd sut y cafodd y diwydiant cynhyrchu pwer niwclear ei ddatblygu i borthi'r rhaglen arfau niwclear, a'r ffaith y 'ceir gwared' o wraniwm hesb, sgîl-gynnyrch y diwydiant cynhyrchu niwclear drwy gael ei ddefnyddio mewn arfau 'confensiynol' sydd yn llygru ardaloedd rhyfel ac ymhell y tu hwnt.

Mae deunydd niwclear yn beryglus yn nwylo unrhyw un. Gallai deunydd ymbelydrol o orsafoedd niwclear a gweithfeydd ailbrosesu fynd i'r dwylo anghywir a chael ei ddefnyddio i gynhyrchu arfau niwclear neu fomiau 'budr' (ymbelydrol). Gwadodd BNFL yn ddiweddar fod digon o blwtoniwm i wneud 7 neu 8 o fomiau niwclear wedi cael ei ddwyn, ac mae'n beio 'gwall cyfrifeg' am y golled. Byddai gorsafoedd niwclear newydd yn cynnig mwy o dargedi niwclear ar gyfer ymosodiadau gan 'frawychwyr' hefyd. Fel y dywedodd gohebydd mewn llythyr diweddar at yr *Independent*: 'Ni allai'r un llywodraeth a oedd yn credu fod hedfan awyrennau mawr, yn llawn tanwydd, i mewn i adweithydd niwclear yn bosibilrwydd go iawn byth hyd yn oed ystyried creu deg Chernobyl posibl ar dir Prydain.'

### Pwer niwclear – dim diolch, o hyd

Arweiniodd Dylan Morgan, o fudiad PAWB sy'n ymgyrchu o blaid cau gorsaf niwclear weithredol olaf Cymry, sef Wylfa ar Ynys Môn, drafodaeth ar ffyrdd o ymgyrchu yn erbyn y posibilrwydd o orsafoedd niwclear newydd. Mae adweithyddion niwclear unrhyw le yn y byd 'yn ein gardd gefn' ni oll; y safleoedd ymhlith yr 8 a restrwyd sydd yn llythrennol ar garreg y drws yw Hinkley Point (gogledd Gwlad yr Haf), Oldbury a Berkley (ar lan afon Hafren yn swydd Gaerloyw), Trawsfynydd ym Meirion, ac Wylfa ar Ynys Môn.

Mae BNFL yn esgus fod ei orsaf buer niwclear newydd, sef Adweithydd Dur dan Bwysau (PWR) wedi ei ailddylunio - y Westinghouse AP1000 – yn barod i gael ei ddefnyddio, ac y bydd rhaglen o ddeg adweithydd newydd yn ffordd economaidd atyniadol i Brydain gynhyrchu peth o'i thrydan. Mae'r lobi o blaid ynni niwclear yn egnïol. Dadleuon BNFL a'i gyd-gwmnïau niwclear sydd i raddau yn porthi'r galw am raglen o adweithyddion niwclear newydd ym Mhrydain. Mae Tony Blair wedi datgelu hefyd fod llywodraeth yr UD hithau'n pwyso ar Brydain i ystyried yr opsiwn hwn unwaith eto.

### Herio'r diwydiant niwclear

Mae Greenpeace a CORE (Cumbrians Opposed to a Radioactive Environment) wedi ymuno â CWNC (Cynghrair Wrth-niwclear Cymru) ac CND Cymru a grwpiau eraill i herio'r diwydiant niwclear yn agored i brofi eu hachos neu gau eu cegau. Rydym yn herio BNFL i gefnogi ei honiadau ynghylch llwyddiant technegol ac ariannol ei ddyluniad adweithydd newydd drwy wneud cais am drwydded i'w weithredu ym Mhrydain, ac i ddadlau'r achos economaidd o blaid hynny o safbwynt cost cynhyrchu trydan a threfniadau cyllido cyfalaf. Cred y grwpiau gwrth-niwclear y bydd y cyhoedd a'r Senedd o reidrwydd yn ddrwgdybus ynglyn â'r cymhellion arbed arian sydd yn tu ôl i 'symleiddio' dyluniad y PWR, ac nid yw darpar-fuddsoddwyr yn debyg o hoffi newidiadau yn y dyluniad nad ydynt yn gwneud dim i atal damweiniau a allai, mewn byr amser, droi buddsoddiad anferth yn ddyled anferth. Er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd ymddiried yn y broses drwyddedu, mae'r grup yn galw ar y llywodraeth i warantu y bydd yr Arolygiaeth Gorsafoedd Niwclear yn parhau i fod yn rhydd o ymyrraeth wleidyddol. Er mwyn sicrhau fod y cyhoedd yn gyffredinol yn derbyn y broses drwyddedu, dylai fod yn agored ac yn eglur, a dylai'r cyhoedd allu cyfranogi. At hynny, mynnwn na ddylid cyhoedd Papur Gwyn newydd ar ynni heb rownd arall o gyfranogaeth gyhoeddus mewn Arolwg Ynni.

***Mae'r ymgyrch yn dechrau nawr***

ynni niwclear

# Sbin yw'r cwbl – ac mae'n ein twyllo

**Os dywedaf enw'r 'Athro Robert Winston', wyddoch chi pwy sy gen i? Allwch chi weld wyneb y dyn? Mae'n gwneud rhaglenni teledu ynglwn â sut i fynd i gysgu – chofia'i fawr ddim arall.**
**Ond wna'i ddim anghofio hyn. Fel athrawes, mi fydda'i'n darllen y *Times Educational Supplement*. Mae'r canlynol o'r rhifyn a gyhoeddwyd ar 14 Ionawr 2005:**
**ATHRO TELEDU YN DWEUD WRTH ATHRAWON AM YMLADD O BLAID PWER NIWCLEAR A BWYDYDD GM YN WYNEB ANWYBODAETH Y CYHOEDD (pennawd mawr yn awr) – ANNOG STAFF I AMDDIFFYN Y GWIRIONEDD.**
***Dylai athrawon gwyddoniaeth fod ar flaen y gad o ran amddiffyn technolegau dadleuol fel puer niwclear, bwydydd GM ac arbrofion ar anifeiliaid, dywedwyd wrth gynhadledd y Gymdeithas Addysg Wyddonol. Roedd ofnau'r cyhoedd ynglwn â phwer niwclear, cnydau GM, profion ar anifeiliaid, ymchwil i gelloedd diwahaniaeth a'r brechlyn MMR heb ddim cyfiawnhad, ac yn cael eu porthi gan anwybodaeth ynglwn â gwyddoniaeth, dywedodd wrth y gynhadledd ym Mhrifysgol Leeds.***

Mae oblygiadau clir a brawychus yn hyn o beth i athrawon ac i'r bobl ifanc yr anelir y fath addysg atynt. Nid yw hyn yn wyddonol nac yn onest; yn hytrach, mae'n arwydd clir o natur wleidyddol dros ben y mudiad sydd y tu ôl i'r apêl bresennol at farn y cyhoedd, fod yn rhaid i ni droi'n ôl at buer niwclear neu farw.

Mae'r apêl yn gweithredu ar sawl ffrynt. Mae disgybl yn dweud wrthyf ei fod wedi gweld rhaglen ar gynhesu byd-eang. "Dim ond 10 mlynedd sy ar ôl gyda ni", meddai, "os na wnawn ni ailddechrau defnyddio technoleg niwclear." Dyma finnau'n gwylio rhaglen wahanol. Mae Louis Theroux yn mwydro a synio ynglwn â'n dewisiadau yn wyneb cynhesu byd-eang. Mae'n ymweld â Chernobyl. Mae'n mynd i'r adweithydd, gan fesur cwmpas peryglus yr ymbelydredd. Mae'n bwyta'r bwyd llygredig a gynigir iddo gan bobl sydd wedi dod nôl i ffermio'r tir ymbelydrol am nad oes ganddynt unlle arall i fynd iddo . . . Ac yna mae'n siarad â'r Athro James Lovelock . . . a dim ond un ffordd sydd o ddatrys problem dyfodol y blaned. Falle y gallwch chi ddyfalu beth yw honno.

Does gennym ni ddim digon o adnoddau ynni adnewyddadwy, a phwer niwclear fydd y rhwymyn dros ein diffyg a bydd yn arbed y byd. Dyma oedd gan Lovelock i'w ddweud mewn cynhadledd o'r enw *Keeping the Nuclear Option Open – What Will it Take? Gan ein bod wedi gwneud y ddaear yn sâl, does dim modd ei gwella gyda meddyginiaethau gwyrdd amgen fel twrbeiniau gwynt a bio-danwydd yn unig.Dyna pam yr argymhellaf yn lle hynny ffisig priodol ynni niwclear.*

Mae'r delweddau'n ddiddorol – pwer niwclear fel *rhwymyn* a fel *ffisig*. Ai dyna'r delweddau o bwer niwclear sy'n dod i'r meddwl yn naturiol? Er cyn lleied y gwn ynglwn â thechnoleg niwclear, gwn mai sbin yw hyn i gyd, a gwn fy mod yn cael fy nhwyllo.

Mae'r darn olaf yma'n dod o'r *Guardian*, 26 Tachwedd 2004 o dan y pennawd Llafur i edrych eto ar Bwer Niwclear. Efallai y cefnogir gorsafoedd newydd wedi etholiad.

A dyna'r pwynt: oni weithredwn ni, fel *fydd* yna raglen ynni niwclear newydd. A fydd hynny ddim yn ywwneud ag ateb anghenion y blaned. Mae'n rhaid i ni archwilio'n ofalus y gwir resymau dros y sbin yma, trafod a gweithredu yn ôl yr hyn sydd ei angen – yn onest. Ni fydd yn gorfod ateb yr anghenion hynny. Ym mis Mai, neu bryd bynnag y cynhelir yr etholiad, *pleidleisiwch dros ddyfodol.*

Linda Rogers

**Mae Linda'n athrawes a hefyd yn fam ac yn weithredydd gyda Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor, Heddwch a Chynnydd, a PAWB. Roedd yn un o drefnwyr allweddol y Gynhadledd Dyfodol Di-niwclear yn Aberystwyth ar Chwefror y 19eg.**

## heddweithredu:

**Byddai llawer bellach yn cyfaddef fod y byd yn lle hyd yn oed yn fwy peryglus nag ydoedd ym 1982, ac eto, mae llai o Awdurdodau Lleol yn perthyn i Fforwm Parthau Di-niwclear Cymru heddiw. Grup awdurdod-lleol trawsbleidiol yw hwn sy'n ymgyrchu yn erbyn arfau niwclear a phuer niwclear. Mae aelodau'r grup yn talu tanysgrifiad i gyllido'i waith.**

**Yn y gorffennol, bu cefnogaeth gref i'r fforwm gan Awdurdodau Lleol Cymru gan fod cydnabyddiaeth eang i'r ffaith fod prosesau niwclear milwrol a sifil yn beryg i ddiogelwch y cyhoedd a'r amgylchedd yn ogystal ag yn effeithio'n wael yn economaidd ar gyflogaeth, ac yn chwarae rhan mewn llygru'r amgylchedd.**

**Yr Awdurdodau Lleol *nad* ydyn nhw'n aelodau o Fforwm Parthau Di-niwclear Cymru yw:**
**Wrecsam, Conwy,Ynys Môn ,Powys,Sir Gaerfyrddin, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Torfaen,Sir Fynwy.**


**Os nad yw'ch Awdurdod Unedol yn aelod o Fforwm Parthau Di-niwclear Cymru, da chi, sgrifennwch at eich cynghorydd sir lleol yn gofyn iddo/ iddi roi'r mater o aelodaeth ar agenda'r Cyngor. Mae llythyron sy'n annog gweithredu positif yn fwy effeithiol na rhai beirniadol. Bydd cynghorydd cefnogol yn hapus i ddangos y fath lythyr i gyd-gynghorwyr a cheisio gwneud yr hyn rydych yn ei ofyn. Cofiwch, efallai nad yw'ch cynghorydd yn gweithredu hyd yn hyn ar y materion niwclear sydd mor bwysig i CND Cymru am nad oes neb wedi sgrifennu ato/ati ynglwn â hynny . . . eto.**

**Gall CND Cymru gynnig cefnogaeth bellach os oes angen help arnoch; os yw hi'n bosib, rhowch wybod i ni am eich llwyddiant neu'ch methiant.**

**Mae'r materion penodol sy'n effeithio ar Awdurdodau Unedol Cymru yn cynnwys peryglon:**

- **Cludo deunydd arfau niwclear mewn awyrennau yn gyson dros Gymru, o Dde Lloegr i UDA**
- **Cludo deunyddiau niwclear ar y rheilffyrdd ar hyd ffiniau dwyreiniol Cymru.**
- **Cludo gwastraff niwclear i fyny ac i lawr i Fôr Iwerddon.**
- **Y ffaith fod llongau tanfor yn cario arfau niwclear yn hwylio ar hyd arfordir Cymru.**
- **Cael gwared o wastraff niwclear.**
- **Y bygythiad y gallai brawychwyr ymosod ar orsafoedd puer niwclear Wylfa, Oldbury a Hinkley Point**
- **Cynlluniau posib i adeiladu gorsafoedd puer niwclear newydd yng Nghymru.**
- **Yr etifeddiaeth ymbelydrol yn Nhrawsfynydd.**

**Mae'r holl faterion hyn yn bwysig i iechyd a diogelwch pobl Cymru a gwledydd eraill yn awr ac yn y dyfodol.**



'NMD' yr UD

# Tra-arglwyddiaeth, rheolaeth a rhyfelgarwch mewn un pecyn

**Mae a wnelo Amddiffyn Taflegrau Niwclear (NMD) yr UD fwy ag ymosod nag amddiffyn. Y bwriad yw rhoi tra-arglwyddiaeth filwrol i UDA, a gallu digymar i ymosod a rheoli. Yn ôl Adran Amddiffyn yr UD, bydd NMD yn defnyddio rhwydwaith o radar, lloerennau, 'taflegrau rhyng-gipio' ac arfau newydd technoleg-uwch i ganfod taflegrau a lansiwyd at UDA a'u dinistrio cyn iddyn nhw daro. Er bod hyn yn swnio fel 'amddiffyn', mae honiadau eraill llywodraeth yr UD yn gwrthddweud hynny. Cyhoeddodd y bydd yn defnyddio NMD i 'ymestyn pwer yr UD ledled y byd', i 'reoli' a 'thra-arglwyddiaethu ar bob sbectrwm'. Byddai hyn yn golygu tra-arglwyddiaeth filwrol, ac economaidd o bosib ar dir, môr, awyr, y gofod a thechnoleg gwybodaeth. Fel rhan o'r cynllun hwn, mae ar yr UD angen safleoedd radar a lansio taflegrau ym mhedwar ban y byd.**

### Canolfan NMD yng nghanolbarth Ewrop?

Dywedir fod UDA yn negydu gyda Gwlad Pwyl a'r Weriniaeth Tsiec gyda'r bwriad o leoli'r ganolfan Amddiffyn Taflegrau Niwclear fwyaf y tu allan i'r UD. Mae Gweinyddiaeth Dramor Gwlad Pwyl wedi dweud yr hoffai fod yn rhan bendant o'r trefniant a allai olygu nid yn unig gorsafoedd radar ond hefyd safleoedd taflegrau pellter-maith ar gyfer dinistrio rocedi. Dywedir for llywodraeth Gwlad Pwyl yn eiddgar i gael presenoldeb yr UD ar ei thiriogaeth. Nid yw swyddogion yr UD wedi cadarnhau hyn. Bwriedir lleoli dau safle rhyng-gipio taflegrau yn California ac Alaska hefyd.

### Dim canolfan NMD yng Nghanada?

Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd y byddai llywodraeth Canada yn gwrthod cymryd unrhyw ran bellach yn nharian amddiffyn taflegrau ddadleuol yr UD. Credir fod y llywodraeth ffederal yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad dwfn i 'amddiffyn taflegrau' UDA ymhlith Canadiaid. Penderfynodd Canada ar ôl misoedd o dîn-droi gan y llywodraeth Ryddfrydol ond mae'n ddiddorol i hynny ddigwydd ychydig ddyddiau wedi i lysgennad Canada i'r Unol Daleithau, Frank McKenna, achosi storm wleidyddol drwy ddweud fod Canada *eisoes* yn rhan o'r darian daflegrau. Dywedodd fod gwelliant i NORAD, cytundeb amddiffyn awyr Gogledd America, yn golygu fod cyfranogaeth *de facto* Canada wedi cychwyn. Ar yr un pryd, cyhoeddodd llysgennad yr UD i Ganada y byddai Canada'n parhau i gyfrannu tuag at ddyletswyddau ehangach NORAD i 'olrhain llwybr taflegrau sydd yn dod i mewn, ac ymateb mewn modd integredig i fygythiadau ar fôr'. Efallai fod hyn oll yn nghyd-destun gwleidydda mewnol – mae'r Rhyddfrydwyr yn lleiafrif yn Senedd Canada. Cawn weld.

### Gorsaf ysbïo USAF Menwith Hill a chanolfan radar Fylingdales, Swydd Efrog

Mae'r llywodraeth Brydeinig yn dal i gynnig cefnogaeth i NMD yr UD a'r defnydd cynyddol o Fylingdales a Menwith Hill ar gyfer y cynlluniau milwrol hyn sydd, yn ddi-os, yn un o ddatblygiadaupwysicaf a mwyaf bygythiol y byd. Mae'r gefnogaeth hon yn cael ei rhoi heb ymgynghori â phobl gwledydd Prydain ac yn wir, mae gwybodaeth yn cael ei chadw oddi wrthynt. Mae'r ymgyrch yn erbyn NMD yn hanfodol er mwyn atal ras arfau newydd, ras arfau yn y gofod a chynnydd yn rhyfelgarwch yr UD. Byddai'r gwastraff adnoddau a'r llygredd yn sgîl hynny yn drychineb amgylcheddol. Mae'r holl syniad o NMD wedi ei borthi gan ofn a thrachwant am reolaeth lwyr ar farchnadoedd a systemau cyfathrebu'r byd.

heddweithredu: **Os caiff UDA'r gallu i ddinistrio arfogaethau niwclear, gallwn ddisgwyl ymlediad niwclear wrth i wlad dan fygythiad benderfynu ei bod am gynyddu ei gallu i daro o hirbell. Efallai y bydd grwpiau a gwledydd dadfreintiedig yn troi at frawychiaeth mewn rhwystredigaeth yn yr hinsawdd o anghyfiawnder rhyngwladol.**

**Dysgwch fwy am yr ymgyrchoedd ac ymuno ynddynt, yn cynnwys:**

**CND Swydd Efrog (01274) 730 795**
**www.yorkshirecnd.org.uk**
**Ymgyrch Heddwch Menywod Womenwith Hill (01943) 466 825**
**FlossieMintballs@aol.com**
**Yr Ymgyrch dros Atebolrwydd Gwersylloedd Americanaidd (01943) 466 405**
**Rhwydwaith Gweithredu Fylingdales (01947) 896 481**
**www.fylingdalesaction.org**

## Teyrnged i ymgyrchydd gwrth-niwclear



Bu farw Kath Williams o Lanymynech ar ddiwedd mis Ionawr wedi brwydro ers dwy flynedd yn erbyn canser. Bu Kath yn ymgyrchydd gwrth-niwclear am flynyddoedd lawer, gan ddechrau yn y dyddiau cynnar ochr yn ochr â Don Arnott yn yr ymgyrch yn erbyn claddu gwastraff niwclear, PANDORA. Ymgyrchodd o blaid cau Trawsfynydd a helpodd i lunio tystiolaeth i'w rhoi ger bron Ymchwiliad Hinkley Point. Fel aelod o CND Llanfyllin, bu'n protestio yn erbyn y ffaith fod y llywodraeth yn meddu ar arfau niwclear.

Er ei bod yn yn llai gweithgar yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd yn dal i fod yn un o drefnwyr taith gerdded flynyddol er cof am Hilda Murrell, ymgyrchydd gwrth-niwclear arall, a lofruddiwyd 20 mlynedd yn ôl. Gan fod Kath mor hoff o fryniau Cymru, ymddengys yn briodol i'w choffáu ar lethr bryn uwchlaw Maengwynedd.

June Row

# Yn euog nes eich profi'n ddinesydd Prydeinig

**Byddai cynllun cardiau adnabod (ID) a chofrestr yn trawsnewid y berthynas rhwng y dinesydd a'r llywodraeth. Bydd gweithredu cynllun cardiau adnabod yn anodd ac yn ddrud, a bydd yn creu mwy o broblemau i gymdeithas.**

Er bod y llywodraeth yn cynnig cynllun 'gwirfoddol' ar hyn o bryd, os dewiswch beidio â gwneud cais am gerdyn ID, mae'n bosib na fyddwch yn gallu gadael y wlad, gyrru, derbyn swydd, defnyddio gwasanaethau sylfaenol fel iechyd, na gweithio gyda phlant – h.y. bydd yn orfodol mewn popeth ond enw.

### Cynyddu rhaniadau cymdeithas

Mae ffigurau'r Swyddfa Gartref ei hun yn cydnabod fod aelodau o leiafrifoedd ethnig yn cael eu hatal a'u chwilio yn amlach na neb arall. Bydd cardiau ID yn gwneud y sefyllfa hon yn waeth gan y gallai unrhyw rai nad ydynt yn edrych yn 'Brydeinig' fynd yn destun amheuaeth eu bod yn 'fewnfudwyr anghyfreithlon' a gorfod dangos eu cerdyn bob tro y byddant yn ceisio defnyddio gwasanaethau cyhoeddus y mae ganddynt berffaith hawl i fanteisio arnynt.

### Cost

Mae'r Swyddfa Gartref yn honni mai 'dim ond' £3 biliwn fydd cost cynllun cardiau ID. Ddwy flynedd yn ôl, roedden nhw'n credu mai 'dim ond' degfed hynny fyddai'r gost. Mae projectau technoleg gwybodaeth y llywodraeth yn ddiarhebol am gostio mwy na'r gyllideb ar eu cyfer.
Ni fydd gan yr unigolyn mwyach mo'r hawl i haeru pwy ydyw heb orfod cael ei h/enw wedi ei wirio yn erbyn rhestr gydnabyddedig. Bydd y dirwyon am beidio ag ufuddhau yn cynnwys £2,500 am wrthod rhoi manylion personol, £1,000 am fethu diweddaru eich manylion, a £1,000 am fethu adnewyddu cerdyn ID.

NO2ID

### NO2ID

Mae grwp amrywiol ac amhleidiol o bobl, sy'n galw eu hunain yn 'NO2ID'yn gwrthwynebu cynlluniau'r llywodraeth ar gyfer y dull ymwthiol, drud ac aneffeithiol hwn o reoli hunaniaeth bersonol. Cred NO2ID, gan fod llywodraeth yn bodoli i wasanaethu'r bobl, na ddylai dinasyddion orfod bodoli 'drwy ganiatâd y llywodraeth', a'i bod yn hawl sylfaenol gallu haeru pwy ydym heb orfod cael ein gwirio yn erbyn rhestr. Gallai cardiau ID effeithio'n ddifrifol ar ein rhyddid i brotestio a defnyddio anufudd-dod sifil mewn ymgyrchoedd dros heddwch a chyfiawnder.

Nid oes achos dros greu cronfa ddata ganolog yn cynnwys gwybodaeth bersonol pawb y gellir ei defnyddio gan bod cangen o'r llywodraeth, a gallai unrhyw gronfa wybodaeth o'r fath dramgwyddo preifatrwydd a bod yn darged newydd ar gyfer twyll. Nid yw'r cynllun ID yn cynnig unrhyw 'ddiogelwch rhag brawychiaeth'; yn hytrach na hynny, mae brawychiaeth yn cael ei defnyddio fel esgus dros reoli a monitro poblogaeth 'daeogaidd' a gor-reoledig.

**heddweithredu: Gwnewch rywbeth i helpu'r ymgyrch yn erbyn cardiau ID! Cysylltwch ag NO2ID, Box 412, 78 Marylebone High Street, Llundain W1U 5AP www.NO2ID.net**

# Peace News Newydd Allan Nawr!

**Ar y 1af Chwefror 2005 ymddangosodd Peace News ar ei newydd wedd. Ar ôl pum mlynedd o gyhoeddi cylchgrawn chwarterol gyda ffocws rhyngwladol amlwg, mae Peace News, cwmni dim-am-elw, wedi dychwelyd at ei wreiddiau gyda phapur-newydd misol sy'n canolbwyntio ar faterion o bwys hanfodol i'r mudiad heddwch a gwrth-ryfel Prydeinig cyffredinol.**

### Peace News o blaid chwyldro di-drais

Mae Peace News, sydd wedi cael ei gyhoeddi ers 1936, wedi ymddangos mewn amryw o ffurfiau ac ar wahanol adegau, ond mae bob amser wedi glynu wrth ei ymrwymiad gwleidyddol i weithredu di-drais a thrawsnewid cymdeithasol radicalaidd wrth ymgyrchu o blaid byd mwy heddychlon a chyfiawn. Mae'r cam diweddaraf yma i gyhoeddi misolyn yn ymateb uniongyrchol i'r angen i gefnogi a chryfhau mudiad heddwch Prydain, a bod yn ofod gwirioneddol annibynnol lle gellir clywed lleisiau ein cymuned amrywiol ac egnïol.

### Dulliau amgen di-drais

Cyn lansio'r papur, dywedodd golygydd PN, Ippy D: "Mae Peace News yn dychwelyd i'w briod le fel calon mudiad heddwch Prydain. A byddwn yn gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i ymgysylltu â'r mudiadau heddwch a gwrth-ryfel a'r gymuned ehangach. Bydd Peace News yn apelio at bobl sydd eisoes yn rhan o'r mudiad heddwch a phobl sy'n ymddiddori mewn dulliau di-drais sc sy'n eiddgar i glywed mwy."

### Peace News ar-lein

Yr un pryd ag y lansiwyd y papur, gosodwyd cyfres newydd o erthyglau gwe a system danysgrifio ar y we ar 1 Chwefror ar wefan PeaceNews. Yn ogystal â'r adrannau newyddion, digwyddiadau ac adolygiadau, mae adran breifat yn cynnwys erthyglau nodwedd ac adolygiadau ychwanegol ar gael i bob tanysgrifiwr a hefyd fel "tanysgrifiad gwe" ar wahân. Bydd pob tanysgrifiwr yn derbyn gostyngiadau ychwanegol yn siop we ar-lein PeaceNews a gellir ymuno mewn fforymau trafod preifat dilyffethair. Ewch at http://www.peacenews.info.

### Tanysgrifiwch

Gofynnwch am gopi sampl, ebost: admin@peacenews.info, neu sgrifennwch at 5 Caledonian Road, Llundain N1 9DY a/neu tanysgrifiwch: ffôn (cyfradd leol) 0845 456 5183 neu 020 7278 3344 Ffacs: 020 7278 0444. Tanysgrifiwch neu archebwch bentwr i'w gwerthu yn:
http://www.peacenews.info/webshop/

***Mae'r chwyldro'n dechrau gyda chi***

ymbelydredd lefel-isel

# Adroddiad Lleiafrifol CERRIE*

**Mae tystiolaeth gref fod y modelau presennol o amcangyfrif peryglon oddi wrth weithgaredd ymbelydrol o fewn y corff dynol yn tan-amcangyfrif y peryglon o 100- gwaith o leiaf, ac o 1000 gwaith o bosib. Daeth yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-Isel (YYLI) â hyn i sylw'r llywodraeth ac yn 2001, sefydlodd gweinidogion CERRIE i ymchwilio i'r mater. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Lleiafrifol ym mis Medi 2004 am fod pwysau munud-olaf gan gyfreithwyr y llywodraeth wedi cadw barn anghydsyniol yr YYLI allan o Adroddiad Mwyafrifol terfynol y Pwyllgor.**

## 'Dôs' ymbelydrol yn ddiystyr

Mae safonau diogelwch ar gyfer ymbelydredd yn yr amgylchedd yn mynd i'r gwellt wrth i'r hen syniad o ystyried 'dôs' o ymbelydredd fel cyfartaledd ar gyfer yr holl gorff gael ei weld fel nonsens – fel credu na allai llosg sigarét frifo am y byddai bath cynnes braf yn trosglwyddo mwy o wres i'r holl gorff. Mae rhai mathau o ddeunydd ymbelydrol, pan fyddant wedi ymsefydlu yn y corff ei hun, yn ymbelydru'r cellau agosaf atynt, gan fygwth eu gwyrdroi, er nad yw gweddill y corff yn derbyn unrhyw ddôs o gwbl. Mae gronynnau plwtoniwm yn enghraifft eithafol o hyn. Mae Adroddiad Mwyafrifol CERRIE yn debyn fod 'dôs' weithiau'n ddiystyr. Mae hyd yn oed y Comisiwn Rhyngwladol ar Amddiffyn rhag Ymbelydredd yn cyfaddef hynny. Mae hyn yn broblem i gyrff swyddogol fel Asiantaeth yr Amgylchedd oherwydd mai 'dôs' yw eu hunig ffordd o fesur maint y perygl. Os ydy'r syniad o ddôs yn ddiystyr, ni allant leddfu ofnau'r cyhoedd ynglwn â pheryglon ymbelydredd sy'n cael ei ollwng i'r amgylchedd, neu sy'n dod o ailgylchu a llosgi defnyddiau llygredig, neu o ddefnyddio arfau wraniwm hesb.

## Busnes budr

Mae Adroddiad Lleiafrifol CERRIE yn cynnig tystiolaeth fod ymbelydredd yn yr amgylchedd yn llawer mwy peryglus nag a dybiwyd yn flaenorol. Mae'r nifer uwch na'r disgwyl o achosion o lewcemia mewn plant sydd yn parhau i ddigwydd ger Sellafield yn enghraifft o hyn, gan fod y safonau diogelwch blaenorol yn dweud fod y ddôs o ymbelydredd 300 gwaith yn rhy fach i fod wedi achosi'r nifer o achosion a ganfuwyd. Mae'r cynnydd mawr mewn lewcemia mewn plant mewn sawl gwlad wedi Chernobyl yn enghraifft o'r un camsyniad. Ni all technoleg niwclear – cynhyrchu arfau, cynhyrchu pwer, ailbrosesu – weithredu heb y rhyddid i ollwng gwastraff a llygru'r amgylchedd. Cred yr YYLI mai dyna pam roedd yn rhaid i'r llywodraeth gadw datganiadau'r YYLI allan o'r Adroddiad Mwyafrifol. Mae'r Adroddiad Mwyafrifol, fodd bynnag, yn cydnabod ansicrwydd gwyddonol sy'n golygu y gallai'r perygl fod wedi cael ei dan-amcangyfrif. Yn eironig, mae ansicrwydd CERRIE mor fawr nes gwneud i hyd yn oed y camgymeriad 300-gwaith edrych yn gymharol ddibwys.

## Ymbelydredd Chernobyl

Yn y cyfnod byr ers cyhoeddi'r Adroddiadau Mwyafrifol a Lleiafrifol, mae cylchronau gwyddonol wedi cyhoeddi mwy o dystiolaeth sy'n dangos fod cyfraddau canser yng ngogledd Sweden a Belarus wedi cynyddu o 40% ers y trychineb niwclear yn Chernobyl. Mae'r model risg confensiynol yn dweud na fyddai unrhyw gynnydd yn y perygl o ddatblygu canser tan 2006 fan gyntaf, ac y byddai'n rhy fach i'w ganfod, p'run bynnag. Felly mae'r awdurdodau'n ei anwybyddu.

heddweithredu: **Mae Adroddiad Lleiafrifol CERRIE yn ddarllen hanfodol i bobl sy'n ymgyrchu yn erbyn unrhyw agwedd ar y project niwclear. Pris arbennig o £5 i ymgyrchwyr. Ar gael gan yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel, The Knoll, Parc Montpellier, Llandrindod LD1 5LW (01597) 824 771 info@llrc.org www.llrc.org**

CERRIE*: Y Pwyllgor sy'n Archwilio Peryglon Ymbelydredd sy'n cael ei ollwng yn Fewnol

Plant sy'n Dioddef mewn Rhyfel

# Cysylltu Hawliau Plant â Hawliau Amgylcheddol

Mae'r mudiad *Child Victims of War* yn pryderu am y genhedlaeth bresennol a chenhedloedd sydd i ddod o blant y mae eu bywydau a'u lles mewn perygl oherwydd rhyfel technoleg-uwch. Mae'r grup yn pryderu'n neilltuol ynghlyn â'r defnydd a wneir o wraniwm mewn systemau arfau, y ffaith fod gwasanaethau cynnal bywyd yn cael eu targedu, a pheryglon bomiau sydd heb ffrwydro.

Ers pan ddefnyddiwyd yr arf cemegol Agent Orange yn Rhyfel Fietnam, mae'r rhan fwyaf o wrthdaro treisgar wedi arwain at amgylchedd gwenwynig marwol sy'n parhau i ladd a niweidio am amser maith ar ôl diwedd y rhyfel. Nid oedd llawer o'r plant sâl, camffurfiedig neu rai sy'n marw yn ne-ddwyrain Asia, y Balcanau, Afghanistan a Phenrhyn Arabia wedi cael eu geni pan oedd y rhyfeloedd hyn yn digwydd. Mae'r effeithiau'n croesi'r cenedlaethau.

Mae plant sy'n tyfu yn hawdd eu gwenwyno ac mae eu celloedd yn fwy tebygol o ddioddef niwed genetig. Mae llawer o blant mewn gwledydd fel Afghanistan ac Irac hefyd yn dioddef o ddiffyg maeth difrifol neu barhaus, sy'n creu perygl mwy fyth o wendid yn y system imiwnyddol. Maent yn crynhoi dôs ar ôl dôs o ddeunydd gwenwynig neu ymbelydrol drwy'r awyr, y dur a'u bwyd. Drwy dargedu isadeiledd bywyd bob-dydd, a thrwy hynny wenwyno systemau dur, mae'r ymosodwyr i bob diben yn cynnal math o ryfel biolegol a chemegol na all plant ifanc sy'n hanner llwgu ei wrthsefyll. Mae llawer o blant mewn ardaloedd rhyfel yn cael eu temtio i chwarae â hen gasys bomiau, neu ddringo ar danciau milwrol a gafodd eu llosgi neu gyffwrdd â bomiau sydd heb ffrwydro. Mae hyn yn cynyddu'r perygl o gael eu gwenwyno â gwenwyn ac ymbelydredd, colli breichiau neu goesau, a chael eu lladd.

Mae *Child Victims of War* yn gweithio i ddarparu cymorth meddygol, addysg a hyfforddiant, i ddarparu offer ar gyfer ysbytai a chlinigau plant, talu am ymchwil i effeithiau tymor-hir rhyfel ar yr amgylchedd a iechyd, helpu cymunedau lleol i ymgyrchu ar lefel ryngwladol i lanhau'r amgylchedd ac o blaid gofal iechyd, ac i ddwyn achosion cyfreithiol ar ran plant unigol y tramgwyddwyd eu hawliau dynol.

Dywedodd Joanne Baker, un o sylfaenwyr *Child Victims of War*, sydd wedi bod yn gweithio'n egnïol i wella'r sefyllfa ddyngarol yn Irac ers 1997, wrth *heddwch*:

*"Credwn y gallwn, fel dinasyddion cyffredin, chwarae rhan flaenllaw o ran diogelu'r dyfodol ar gyfer ein holl blant. Drwy gefnogi cymunedau, teuluoedd a phlant mewn gwledydd yr ymosodir arnynt gan luoedd milwrol, gobeithiwn wneud pobl yn fwy ymwybodol o beryglon amgylcheddol rhyfel, a gwella neu achub bywydau plant unigol. Gallwn hefyd adeiladau pontydd o heddwch a chefnogaeth rhwng ein gwledydd."*

heddweithredu: **mae'ch syniadau a'ch gweithredu'n hanfodol. Mae canolfan adfer yn cael ei sefydlu yn Falluja yn Irac, dinas a fomiwyd yn drwm yn 2004 gan daflegrau, bomiau clwstwr, bwledi napalm ac wraniwm hesb yr UD. Bydd y ganolfan yn delio ag anafiadau corfforol a thrawma seicolegol plant sydd wedi dioddef a bod yn dyst i'r anafiadau mwyaf erchyll; mae miloedd bellach yn ddigartref a channoedd yn amddifad. I gael gwybod mwy ynglwn â sut i helpu, cysyllter â *Child Victims of War*: 14C, Ecclestone Road, West Ealing, Llundain W13 0RL (020) 8567 4237 info@childvictimsofwar.org http://www.childvictimsofwar.org Mae *Child Victims of War* yn elusen gofrestredig gyda'r Comisiwn Elusennau (Rhif 1106587)**



Fallujah Tachwedd 2004

adolygiad

# Eunice Fleet

gan Lily Tobias



Ailargraffwyd y nofel hon o 1933 yn ddiweddar fel un o Glasuron HONNO. Mae'n adrodd hanes Eunice Fleet, gwraig Gwrthwynebydd Cydwybodol (GC) ifanc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf (neu'r 'War of Exhaustion', chwedl Tobias). Yn sgîl marwolaeth ei gur o gamdriniaeth yn y carchar, mae Eunice yn brwydro â'i heuogrwydd o fod wedi gwrthod ei egwyddorion heddychol. Mae perthynas newydd gyda gwleidydd yn ei gorfodi i wynebu'r ffaith fod ei daliadau'n newid. Mae'r stori'n dechrau ac yn dod i ben yn Llundain, ond lleolir rhan ganol y nofel yng Nghaerdydd.

Gan fod gan Tobias ei hun frodyr a oedd yn wrthwynebwyr cydwybodol yn ystod y rhyfel, roedd yn gyfarwydd iawn â'r system o dribiwnlysoedd a gwrandawiadau ynglwn â listio dynion ifanc yn y lluoedd arfog. Roedd am i optimistiaeth, dewrder a gonestrwydd gwrthwynebwyr cydwybodol gael eu cydnabod, ac i stori eu dioddefaint gael ei hadrodd. Mae *Eunice Fleet* yn cynnig mewnwelediad diddorol i fywyd cyffredin y dosbarthiadau canol yn y 1930au. Mae hefyd yn archwilio natur rhyfel sydd yn cael ei ymladd 'dros y dur' ac effaith hynny ar sifiliaid 'gartref'. Yn ôl Tobias, doedd dim dwywaith nad oedd gwrthwynebwyr cydwybodol weithiau'n ymwybodol o effaith eu daliadau a'u gwerthoedd personol ar weddill eu teuluoedd a'u ffrindiau.
Mae'n braf darllen llyfr nad yw'n canmol rhyfel neu hyd yn oed yn ei dderbyn fel un o ffeithiau bywyd. Mae Tobias yn feirniadol o awdurdod yn hytrach nag unigolion, ac eto mae'n gweld y gallu sydd o fewn unigolion i newid pethau. Nid yw Tobias yn condemnio'r rhai a ymladdodd yn y rhyfel ond, yn hytrach, mae'n tosturio wrthynt. Dyma fel mae'n sgrifennu am y Cadoediad ym mis Tachwedd 1918:
*"Neither tears nor laughter could touch the millions in each country who had died by foul means, the millions more hideously injured, the yet uncounted millions condemned to mental ills, broken homes, broken careers, broken lives."*
*"The hospitals were full of cripples and the gaols were full of COs. Fifteen 'absolutists' remained in strict confinement. Thousands of 'schemers' awaited in vain for their remission from penal routine. Men continued to hunger strike, to be forcibly fed, to be released, re-arrested, and sent to 'rejoin units' with the prospect of a fourth court martial."*
Daw Eunice i'r casgliad mai dim ond 'gwrthod' ymladd a fydd yn gwneud rhyfel yn amhosibl, ond ei hail neges yw, tra bod ein daliadau a'n hegwyddorion yn bwysig i ni yn bersonol, maent yn effeithio ar ein perthynas ag eraill a'n gallu i weithredu, ar y cyd ac ar ein pen ein hunain. Does dim byd a wnawn yn digwydd ar wahân.

Magwyd Lily Tobias yn Ystalyfera yng Nghwm Tawe. Mewnfudwyr o Iddewon o Wlad Pwyl oedd ei rhieni. Yn ddiweddarach symudodd i Gaerdydd. Dysgwn yn rhagarweiniad ardderchog Donahaye i'r ailargraffiad hwn fod Rhiwbeina, Caerdydd, lle'r oedd Lily Tobias yn byw yn yr ugeiniau, "yn gilfach ddeallusol fywiog ..." ac ar ei haelwyd cefnogid sosialaeth a heddychiaeth, gyda chydymdeimlad cryf â'r mudiad cenedlaethol Cymreig cynnar a'r frwydr dros hawliau menywod. Gwyddys y bu Tobias yn gweithio gyda heddychwyr a sosialwyr yng Nghaerdydd ac Abertawe – helpodd i amddiffyn gwrthwynebwyr cydwybodol, bu'n dogfennu camdriniaeth yn y fyddin, yn hyrwyddo'r Gymdeithas Dim-Gorfodaeth Filwrol a chefnogi'r Blaid Lafur Annibynnol.

**Jill Stallard**

**_Eunice Fleet_ gan Lily Tobias gyda rhagarweiniad gan Jasmine Donahaye Clasuron Honno 2004 ISBN 1-870206-65-7 clawr papur £8.99**

# Geiriau i CND Cymru

## gan D.R. Thomas Ebrill 1999

Ffrwydrwch eich bomiau a'n dinasoedd glân
Fu'n gartref i grefydd a llên a chân,
Maluriwch ei muriau yn anial llwyd,
Ei gerddi ffrwythlon yn rhwbel di-nwyd.
Nid yn fy enw i …

Gwariwch eich trethi yn hael a rhydd
Yn barod i ddisgwyl rhyw ryfel a fydd,
Gorfodwch y trethi ar ddynion tlawd
Sy'n ei chael yn anodd i ddilyn eu rhawd.
Nid yn fy enw i…

Miloedd ar filoedd o bobl ein byd
Sydd heb fwyd na chysur nac aelwyd glyd,
"Peidiwch â gwrando ar eu cri
Ennill y rhyfel yw ein pwrpas ni."
Nid yn fy enw i…

Ni ellir cael rhyfel heb colli gwaed,
A damsgen gwerinwyr gwirion dan draed
Sy'n ceisio, yng nghanol eu penyd tlawd,
Am gymorth a chysur eu chwaer a'u brawd.
Nid yn fy enw i …

Molwch arweinwyr sy'n trefnu'r drin
Gydag uchelgais a bri di-flin,
Eu propaganda cyfrwys, di-ball,
Fod pawb ond y nhw yn bobl ddall.
Nid yn fy enw i …

Gobaith a ffydd a chariad pur
Yw'r unig ffordd i wella eu cur,
Er ei gwawdio a'u herlid o ddydd i ddydd,
Hyd yn y diwedd â ennill y dydd.
Nid yn fy enw i …

Hyn yn wir yw fy nghyffes i:
A wnei di gyfaill ymuno â mi
Mewn ymgais ddewr i arwain y byd
i heddwch a thegwch i bawb ynghyd?
Nid yn fy enw i…

Gwnewch fel hyn os mynnwch chi
Ond peidiwch â'i wneud yn fy enw i
Nid yn fy enw i…

# Gwahoddiad i gefnogi Maniffesto Cynefin y Werin 2005

Fel awduron Maniffesto Cynefin y Werin 2005, hoffem eich gwahodd chi, eich grup neu fudiad i ychwanegu'ch enwau at y rhestr gefnogwyr.

Fe luniwyd y Maniffesto dros ddau fis yn ôl, drwy broses o gydweithrediad a chonsenswS. Credwn fod amcanion y Maniffesto yn lle da i ddechrau ymgyrchu ar gyfer digwyddiadau pwysig 2005 a'r dyfodol.

Y bwriad yw defnyddio'r Maniffesto yn ystod y flwyddyn - dydy e ddim wedi ei sgrifennu ar lechi o garreg, ond yn hytrach, mae'n rhywbeth y gall grwpiau ei drafod, ei ddatblygu a'i ddefnyddio.

Lansiwyd y Maniffesto yn y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ionawr. Rydym am ei ddefnyddio ar gyfer yr etholiad ym mis Mai, uwch-gynhadledd G8 ym mis Gorffennaf, Llywyddiaeth Prydain ar yr Undeb Ewropeaidd (mis Gorffennaf i fis Rhagfyr) a chyfarfodydd pwysig eraill yn ystod y flwyddyn

Am gopi o'r maniffesto, neu i ychwanegu eich enw at y cefnogwyr, cysyllter â benica@gn.apc.org tel: (01286) 882 134 neu gweler www.cynefinywerin.org.uk/index.php?docid=161

Raoul Bhambral - Cyfeillion y Ddaear
George Crabb - Cynghrair Cymru yn erbyn Arfau Niwclear
Michael Green - Grwp Gweithredu Trefyclo dros Heddwch a Chyfiawnder
Ben Gregory - Ymgyrch Gefnogi Nicaragua Cymru
Cathy Madge - Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy
James Maiden - Cynefin y Werin
David McKnight - Fforwm Gymdeithasol yr Wyddgrug
Clare Sain ley Berry - CCU Cymru
Jill Stallard - CND Cymru
Rod Stallard - CND Cymru




Am gopïau o galendr (ffeil Word) sy'n rhestru'r holl ddigwyddiadau allweddol i weithredwyr yn 2005, cysyllter â clare@wcia.org.uk neu ffoniwch: (029 20) 821 055

# Maniffesto 2005 Cynefin y Werin

Rhwydwaith o fudiadau yng Nghymru yw Cynefin y Werin, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, heddwch, cyfiawnder, hawliau dynol a chyd-weithrediad rhwng cenhedloedd, pobl a chymunedau ar sail datblygiad cymdeithasol, economaidd a amgylcheddol sy'n gynaladwy.

Credwn fod yr egwyddorion hyn yn adlewyrchu gwir werthoedd y gymdeithas a'r traddodiad Cymraeg. Yr ydym felly yn pwyso ar ein haelodau etholedig yn y Cynulliad Cenedlaethol, y Senedd ac Ewrop i ganfod ffyrdd o fynegi yr egwyddorion hyn yng Nghymru a'u hyrwyddo drwy'r byd gyda'u cysylltiadau â chyrff cenedlaethol a rhyngwladol.

Cred Cynefin y Werin y dylid adeiladu heddwch a chyfiawnder rhyngwladol ar sail Datganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, cryfhau ac adfywio'r Cenhedloedd Unedig, a gwir ddemocrateiddio sefydliadau rhyngwladol.

Yn ôl pob tebyg, bydd 2005 yn flwyddyn Etholiad Cyffredinol. Bydd hefyd yn flwyddyn yr Uwch Gynhadledd G8 yn yr Alban, Llywyddiaeth Brydeinig ar yr Undeb Ewropeaidd, a chynhadledd y Cenhedloedd Unedig i fesur cynydd yn Nodau Datblygiad y Mileniwm, sef gostwng tlodi byd-eang, yn ogystal â Chyfarfyddiad Pleidiau Cytundeb Kyoto. Cred Cynefin y Werin fod angen agenda radical i sicrhau heddwch a chyfiawnder rhyngwladol, gyda gweithredu rhyngwladol ar y cyd i roi diwedd ar wrthdaro, ecsploetio economaidd ac anghyfiawnder.

### 1. Cyfiawnder Masnachol

Yr ydym yn byw mewn byd lle mae gan y tri unigolyn cyfoethocaf fwy o gyfoeth na 600 miliwn o'r bobl dlotaf; byd lle mae hanner y byd yn byw ar ddwy doler y dydd, lle mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn tyfu bob blwyddyn; a lle mae sawl gwlad, gan gynnwys y rhan fwyaf o Affrica is-Sahara yn dlotach nag oeddent ugain mlynedd yn ôl, ac nid oes ganddynt obaith o gyrraedd Nodau Datblygiad y Mileniwm o fewn y ganrif nesaf, heb sôn am 2015. Mae'r anghyfiawnderau hyn yn deillio o bolisiau sefydliadau rhyngwladol sy'n gweithio er budd y cyfoethog, polisiau sy'n rhoi busnes cyn cymunedau, a threfn economiadd sy'n rhoi elw cyn pobl. Yn 2005, galwn ar ein cynrychiolwyr etholedig ar lefel genedlaethol, Prydeinig, ac Ewropeaidd i weithio i

a) roi diwedd ar gymorthdaliadau allforio, yn enwedig ar allforio arfau, a diwygio yr Adran Sicrwydd Credyd Allforio;
b) caniatau llywodraethau i benderfynu eu polisiau masnach eu hunain, yn enwedig y rhai sy'n amddiffyn a hybu amaethyddiaeth leol a chynhyrchu bwyd yn lleol a

gweithfeydd sydd yn amgylcheddol gynaladwy;

c) cyflwyno rheolau masnach rhyngwladol sy'n rhoi blaenoriaeth i'r tlawd a'r amgylchedd;
d) dileu holl ddyledion y gwledydd tlawd, fel cam allweddol i sicrhau Nodau Datblygiad y Mileniwm;
e) gwneud sefydliadau byd eang megis yr IMF, Banc y Byd a'r WTO yn wirioneddol democrataidd;
f) cefnogi mentrau Masnach Deg;
g) annog cynhyrchu lleol, darparu a phrynu nwyddau a gwasanaethau lleol lle bo hynny yn bosibl;
h) dad-breifateiddio gwasanaethau cyhoeddus megis dwr, trydan, iechyd ac addysg.

## 2. Cyfiawnder Amgycheddol

Yr ydym yn byw mewn byd lle mae 86 y cant o adnoddau naturiol y byd yn cael eu defnyddio gan 20 y cant o'r boblogaeth; lle mae'r gwledydd cyfoethog yn defnyddio mwy na'u siar teg o adnoddau megis egni, dwr, coed a mwynau, tra'n gadael byd llawn problemau iechyd ac amgylchedd diffygiol i gymunedau lleol a bywyd gwyllt yn ogystal â chenhedlaethau'r dyfodol. Ar draws y byd, mae'r bobl gyda'r grym lleiaf a'r cyfoeth lleiaf yn dioddef fwyaf pan gaiff yr amgylchedd ei niweidio, a gwraidd y broblem yw agwedd wyrdroedig i economeg (sy'n gwrthod ystyried cost gymdeithasol ac economaidd datblygiad) a busnes gyda un nod yn unig, sef gwneud elw. Dywedodd Kofi Annan, "heb reoli y newid mewn hinsawdd ac amgylchedd, ni chredaf fod gennym obaith o gyflawni Nodau Datblygiad y Mileniwm". Credwn fod y Nodau hyn yn allweddol ar gyfer cymdeithas fyd-eang gynaladwy, a galwn ar y cynrychiolwyr etholedig I

a) sicrhau asesiad cwbl annibynnol o effaith amgylcheddol a chymdeithasol datblygiadau arfaethedig;
b) sicrhau fod gwario arian treth-dalwyr yn gwbl agored a'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiadau buddiol, ac nid rhai niweidiol;
c) defnyddio'r egwyddor - "trethu'r llygrwr, gwobrwyo'r rhai nad ydynt yn llygru";
d) hybu cynaladwyaeth lleol a hunan gynhaliol a chefnogi cymunedau lleol;
e) defnyddio adnoddau nad ydynt yn cael effaith ar yr amgylchedd.

## 3. Cyfiawnder Llywodraethol

Mae ymchwil yn dangos fod yna gefnogaeth gynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac am sefydliad gyda mwy o rym, yr un pryd ag y mae mwy a mwy o bleidleiswyr yn cael eu dadrithio gyda gwleidyddion. Yng Nghymru, yr ydym angen democratiaeth lle mae ein sefydliadau yn gwbl atebol i bleidleiswyr, lle mae democratiaeth gyfrannol yn annog dinasyddion i ymddiddori ym mhob lefel o lywodraeth, a lle mae cymdeithas sifil yn cael ei chydnabod yn llawn a'i chynnwys. Os yw nod y Cynulliad Cenedlaethol o ddatblygiad cynaladwy i'w wireddu, rhaid i'w bolisiau adlewyrchu ei ymrwymiad. Rhaid i'r Cynulliad ddefnyddio ei lais ar y llwyfan rhyngwladol, fel y sefydliad etholedig sydd yn adlewyrchu ewyllys pobl Cymru. Galwn am:

a) weithredu adroddiad Comisiwn Richard yn llawn i roi'r grym angenrheidiol i'r Cynulliad Cenedlaethol;
b) ddatblygu polisiau buddsoddi a chaffael Cymreig a hybu pryniant lleol er lles y gymuned a'r amgylchedd;
c) rhoi diwedd ar ddefnyddio arian cyhoeddus fel cymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchu arfau neu brofi arfau yng Nghymru neu i ariannu ymchwil militaraidd mewn colegau a phrifysgolion yng Nghymru;
a) d). Hyrwyddo adnewyddiad a chefnogaeth i'r Cenhedloedd Unedig drwy ddemocratiaeth rhanbarthol fel y fforwm gorau i benderfynu ar faterion rhyngwladol.

## 4. Heddwch a Chyfiawnder

Mae diwylliant rhyfel a thrais wedi ei hyrwyddo yn ddiweddar gyda'r ymosodiadau ar Afghanistan ac Irac. Mae lladd o bellter fel dull militaraidd yn golygu fod 90% o'r rhai gaiff eu lladd mewn brwydrau felly yn bobl gyffredin, yn wragedd a phlant gan mwyaf. Mae rhyfel, a pharatoi ar gyfer rhyfel a thrais yn anghynaladwy, yn wastraff enfawr o adnoddau lleol, yn golygu llygru parhaol, yn effeithio ar iechyd pobl ac yn difrodi eu hamgylchedd. Mae rhyfel hefyd yn tanseilio hawliau dynol ac yn creu teimlad o anobaith mewn pobl led-led y byd. Ni all ein hamgylchfyd bregus gynnal y rhyfeloedd di-ddiwedd hyn. Mae datblygu mwy a mwy o arfau 'soffistigedig' yn golygu fod yn rhaid inni ymwrthod â thrais yn awr neu wynebu difodiant. Mewn Cymru sydd yn edrych tua'r dyfodol, dylem fod yn dangos gweledigaeth, gosod esiampl drwy hybu Degawd Heddwch a Di-dreisedd y Cenhedloedd Unedig a lawnsiwyd yn 2000. Dylem fod yn gweithio yn ddibaid dros ddi-arfogi, wynebu achosion rhyfel, hybu atebion heddychlon i wrthdaro a gweithredu er budd cenhedlaethau'r dyfodol. I'r perwyl hwn, credwn y dylai ein llywodraeth etholedig

a) gefnogi Cymal VI o Gytundeb Atal Amlhau Arfau Niwcliar (NPT) a gwireddu'r nod o ddi-arfogi niwcliar ym Mhrydain fel cam tuag at ddi-arfogi niwcliar byd-eang;
b) hybu pob cam tuag at wireddu Cymru Ddi-Niwcliar;
c) ymwrthod â'r polisi militaraidd o daro gyntaf;
d) deall a delio gyda achosion terfysgaeth;
e) rhoi diwedd ar ran Prydain yn rhaglen Amddiffyniad Arfau Cenedlaethol yr Unol Daleithiau;
f) rhoi stop ar unrhyw ymwneud â chynhyrchu, gwerthu, profi arfau a chynnyrch tebyg yng Nghymru;
g) cefnogi pob ymgais i ddod â heddwch a chyfiawnder i'r Dwyrain Canol;
h) gwrthod adnewyddu y Cytundeb Cyd-Amddiffyn gyda'r Unol Daleithiau, sydd yn torri y Cytundeb Atal Amlhau Arfau Niwcliar;
i) symud pob gwersyll ac adnoddau militaraidd tramor o Brydain;
j) gwrthwynebu ymestyn rheolaeth y wladwriaeth a chasglu gwybodaeth (e.e. cardiau adnabod, bas data cenedlaethol DNA);
k) hyrwyddo ac annog dulliau di-drais o ddatrys gwrthdaro a hybu ymwybyddiaeth o beryglon tlodi, difrod amgylcheddol a sathru hawliau dynol.



# dyddiadau dyddiadur

**Ebrill 16th Bomsbotio Brwsel XL** Yn union cyn Cynhadledd Adolygu'r CAY ym Mai 2005) bydd gweithred Bomsbotio anferth, ryngwladol yn digwydd ym mhencadlys NATO ym Mrwsel, yn SHAPE (pencadlys milwrol NATO) ym Mons, a'r ganolfan filwrol yn Kleine Brogel. Fe fydd gweithredoedd o anufudd-dod sifil rhyngwladol, torfol. Cysyllter â Gillian Sloan ar gmsloan@yahoo.com os hoffech ddod.

**Ebrill 24ain Caer. Cyfarfod ar Balesteina.** Alexander's, Rufus Court, Chester. Drysau'n agor am 8pm. Mynediad £2 tuag at gostau ymgyrchu. Cysyllter â: (01244) 340 005 www.alexandersjazz.com

**Mai 2ail - 28ain Cynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear, Efrog Newydd.** Dewch i bwyso ar y gwledydd sydd ag arfau niwclear, a gofyn iddynt anrhydeddu eu 'hymgymeriad diamwys' i 'lwyr ddileu eu harfogaethau niwclear gan arwain at ddiarfogi niwclear' sef yr ymrwymiad yn Nogfen Derfynol Cynhadledd Adolygu 2000. Gweler: http://www.reachingcriticalwill.org/legal/npt/nptindex1.html am fwy o wybodaeth am y CAY. Neu trefnwch ddigwyddiad yn eich ardal i gynyddu ymwybyddiaeth o'r CAY. Mae CND Cristnogol yn gweithio ar ymgyrch weddïo ar y CAY: http://ccnd.gn.apc.org/prayer%20campaign.htm

**Mai 4ydd Llundain. CCB British Aerospace (BAE) Systems** Yr Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau, 11 Goodwin St, Llundain N4 3HQ 020 7281 0297 http://www.caat.org.uk/

**Mai 15fed Byd-eang. Dydd Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol.**

**Mai 19eg – 20fed Devonport** (Plymouth, Lloegr) Gwersyll Diarfogi. Cysyllter â Trident Ploughshares (0845) 458 8366 info@tridentploughshares.org http://www.tridentploughshares.org

**Mai 24ain Byd-eang. Dydd Rhyngwladol Menywod dros Ddiarfogi.** http://www.nowar.no/peaceacademy/womenday.html for ideas & information.


**Mehefin 4th Byd-eang. Dydd Rhyngwladol Plant fel Dioddefwyr Rhyfel**

**Mehefin 9fed Bryste. Sgiliau Cyfarfod Effeithiol** Cwrs rhagarweiniol i'ch helpu i ddeall rhan swyddogaeth hwyluso mewn creu cyfarfodydd cyfranogol a chynhyrchiol, a dysgu i chi'r technegau i fod yn hwylusydd effeithiol. Cysyllter â: matthew@seedsforchange.org.uk (0845) 458 4776

**Gorffennaf 2il Caeredin. Gwrthdystiad 'Make Poverty History'** cyn Uwch-gynhadledd y G8. Am gludiant o Gymru, cysyllter â James Maiden: (029) 2082 1058 jamesmaiden@wcia.org.uk

**Gorffennaf 4ydd Faslane, Yr Alban. Y Gwarchae Mawr** Dewch i ni gau canolfan arfau niwclear Prydain cyn Uwch-gynhadledd y G8. Manylion: (0845) 458 8366 http://www.tridentploughshares.org/

**Gorffennaf 6ed - 8fed Yr Alban. Protestiadau yn Uwch-gynhadledd y G8** yn Gleneagles yn yr Alban. Cysyllter â: www.agp.org www.dissent.org.uk CND yr Alban http://www.banthebomb.org/index.shtml (0141) 423 1222 neu Trident Ploughshares http://www.tridentploughshares.org/ (0845) 458 8366 cludiant o Gymru, gweler uchod.




## cysylltiadau cnd cymru

www.cndcymru.org

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
(01824)709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Rod Stallard
(01550) 750 260

David Bradley(gogledd cymru)
(01824)709 700

Olwen Davies (y canolbarth)
(01970) 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

**aelodaeth &aelodau cysylltiol:**
Monica Bradley
7, Brook Terrace, Mochdre,
Drenewydd SY16 4JG (01686) 626 350
aelodaeth@cndcymru.org

**masnachu**
Jan Jones
(01792)830 330

**trysorydd**
Jean Bryant,
16,Clôs
Ty'n y Cymer,
Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**

Jill Stallard, Nantgaredig,
Cynghordy, Llanymddyfri
SA20 0LR (01550) 750 260
jill@cndcymru.org

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch is-gadeirydd CND Cymru agosaf da chi, neu'r ysgrifennydd cyffredinol.**

CADWCH MEWN CYSYLLTIAD ar-lein gyda newyddion a digwyddiadau heddwch a chyfiawnder ledled Cymru drwy ymuno â'r e-restr JUSTPEACE – danfonwch ebost gwag at just-peace-subscribe@yahoogroups.com